# Y Dinesydd

Mawrth 2011 Rhif 355 | Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch | Pris: 80 ceiniog





## Codi Calon - Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys

Yng nghwmni rhai o aelodau Côr Meibion Taf cafwyd noson elusennol lwyddiannus iawn ym mis Tachwedd i godi arian i Sefydliad y galon/Cymru er cof am Peter Elias Jones a fu farw mor erchyll o sydyn ym Mis Mai 2010. Pleser mawr felly oedd gwahodd Sharon Owen a Jayne Lewis, rheolwyr codi arian Sefydliad y galon i ddod atom ni i dderbyn siec o £1,650 o ddwylo Elinor Elias Jones a'i merch Elen. Casglodd y pwyllgor o'u cwmpas i'w cefnogi ac i ddiolch i bawb am eu haelioni.

# Argyfwng

## Pryder Ariannol Cylch Meithrin Tŷ'r Cymry

Mae'n siŵr bod gan lawer o ddarllenwyr y Dinesydd atgofion melys iawn o amser eu plant yng Nghylch Meithrin Tŷ'r Cymry, neu hyd yn oed o fod yn blant bach yn y cylch eu hunain! Mae'r cylch wedi bod yn rhedeg ers 1987 yn Gordon Road yn y Rhath, a chyn hynny ers 1951 yn Heol y Crwys.

Erbyn hyn mae addysg Gymraeg i blant dan 5 oed wedi newid cryn dipyn yn Nwyrain Caerdydd gydag unedau meithrin yn Ysgolion Bro Eirwg, Glan Morfa (Sblot), Mynydd Bychan a Berllan Deg. Er hynny, mae Cylch Meithrin Tŷ'r Cymry yn dal i gynnig profiad Cymraeg heb ei ail i blant bach ac mae lle o hyd i'w ddarpariaeth gartrefol braf, yn enwedig mor agos i ganol y ddinas. Ond mae'r newidiadau wedi cael cryn effaith ar Gylch Meithrin Tŷ'r Cymry a gwelwyd niferoedd isel yn ymgofrestru eleni.

O ganlyniad mae pwyllgor presennol y cylch wedi cael trafferth mawr cadw'r ddysgl yn wastad a chyn y Nadolig cafwyd argyfwng ariannol dros gyfnod o fisoedd gyda dyledion sylweddol i'r staff - dros £1600. Faint ohonom tybed a fyddai'n fodlon gweithio yn ddiflino fel arweinwyr cylch, gwneud pob math o ddyletswyddau tu hwnt i'r disgwyl, a hynny i gyd gan wybod na fyddem yn cael ein talu?

Er mwyn sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto mae rhai o'r cyn rieni wrthi'n helpu'r pwyllgor i adeiladu'r cronfeydd eto. Byddem yn croesawu cyfraniadau ariannol o unrhyw faint er mwyn lleihau'r baich presennol yn syth.

*Rhagor ar dudalen 3*

# Cofeb i Grav

Cynhaliwyd seremoni i ddadorchuddio penddelw o Ray Gravell gan y cerflunydd John Meirion Morris o Lanuwchlyn yng nghyntedd Canolfan y BBC yn Llandaf ar yr 2 Chwefror.



Bydd yn sefyll ochr yn ochr â phenddelwau o Carwyn James a Ryan Davies. Ceir dyfyniadau Cymraeg a Saesneg ar y plac dan y penddelw ac mae'r un yn Gymraeg yn defnyddio rhan o englyn gan y bardd Aneurin Caradog o Bontypridd sy'n dweud 'Un o'r Werin yw'r arwr.'

Rysait Mis Mawrth



Trowch i dudalen 13

## Y Dinesydd

Golygydd y rhifyn hwn:
Gwilym & Eirian Dafydd

Golygyddion y rhifyn nesaf:
Alun Williams

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Mawrth 2011 erbyn **20 Mawrth** at:
12 Talbot St, Caerdydd, CF11 9BW
alunewilliams@gmail.com
07890 829232

MANYLION CYSYLLTU

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James,
16 Kelston Rd, Caerdydd CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Ceri Morgan,
24 Cwm Gwynlais Tongwynlais,
Caerdydd, CF157HU
ceri33@btopenworld.com
029 20813812

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones,
22 Blaen-y-Coed, Radur,
Caerdydd, CF15 8RL
07985 174997

Cyhoeddir Y Dinesydd gan Bwyllgor Y Dinesydd

Fe'i cysodir gan Siriol Haf Griffiths a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

## Nodion Golygyddol

Croeso cynnes i fis Mawrth arall ac addewid am dymor y Gwanwyn – yn enwedig os profoch chi Chwefror yn fyr ond yn hir ei anghysuron, chwedl yr hen ddihareb. Diolch i bawb am eu cyfraniadau amrywiol – y mwyafrif trwy'r ebost a diolch am hynny!

Gofid a thristwch oedd salwch a marwolaeth cynamserol ein cymdoges a'n ffrind annwyl Gwenfyl Edwards, Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, ar brynhawn Mercher, 16 Chwefror. Wele isod deyrnged fer.

## Gwenfyl Edwards 1957 – 2011

Cychwynnodd Gwenfyl a minnau, yn y Brifysgol yma yng Nghaerdydd ar yr un diwrnod ganol y saithdegau. Er nad oeddem yn adnabod ein gilydd cyn hynny, nid yw'n syndod o gwbl fod dwy o Fôn wedi closio at ei gilydd ar unwaith a chychwyn cyfeillgarwch a barhaodd hyd at farwolaeth annhymig Gwenfyl ganol Chwefror.

Un tawel, swil a diymhongar oedd Gwenfyl. O ganlyniad y weithwraig dawel yn y cefndir yn hytrach na'r person cyhoeddus a fu ar hyd ei hoes. Ond serch hynny, roedd ganddi farn gadarn a byddai'n barod iawn i fynegi'r farn honno yn glir a chryno. Roedd yn berson trefnus iawn gan dalu sylw i'r manion a daeth hyn yn amlwg yn ei gwaith gyda'r Bwrdd Croeso, lle bu'n gweithio'n ddyfal am 32 o flynyddoedd. Dros y cyfnod hwn bu'n gwirio safonau gwestai ac atyniadau twristiaeth ein gwlad gan sicrhau fod yr ymwelwyr yn derbyn y safonau a ddisgwylient.

Bu'n aelod ffyddlon a gweithgar yn Ebeneser gan ymroi i gynorthwyo'n dawel yn y cefndir a chyfrannu llawer at waith elusennol yr Eglwys. Yma eto daeth ei dawn i drefnu a pharatoi'n fanwl i'r amlwg. Cryfhaodd ei ffydd dros y blynyddoedd ac yn ystod ei misoedd olaf o boen a gofid bu'r ffydd hwn yn ddi-syfl ac yn faen cymorth iddi hi a'i rhieni a fu'n gofalu mor dyner amdani.

Yn ôl ei dymuniad cafodd ei chladdu ar lannau'r Fenai, dafliad carreg o'i chartref ym Mhorthaethwy. Mae meddyliau a gweddïau ei ffrindiau gyda'i rhieni, Ceri ac Elwyn, sy'n wynebu'r dyfodol heb gwmni, cariad a gofal ei hunig blentyn. Ond diolchwn am y blynyddoedd dedwydd y cawsom eu rhannu â Gwenfyl.

## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

SIOP Y FELIN, 54 - 60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
CABAN, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
PETHAU BYCHAIN, 20 Stryd Bute, Bae Caerdydd, CF10 5BZ
DERI STORES, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
VICTORIA FEARN GALLERY, 6b Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
HALLS, 44, Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
HALCYON DAZE, 55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
SIOP LYFRAU WINDSOR, 9a Windsor Road, Penarth, CF64 1JB
FOOD FOR THOUGHT, 12 High Street, Y Barri, CF62 7EA
COFFEE LOUNGE, 38 Station Road, Llanisien, CF14 5LT
VEG VENDOR, 8 Station Road, Radur, CF15 8AA

**TIWTOR MATHEMATEG**

Meistroli a mwynhau Mathamateg.
Tiwtor graddedig.
Hynod brofiadol a llwyddiannus iawn

Cyrsiau adolygu dwys dros wyliau Pasg yr ysgol:
safon TGAU a Safon Uwch.
Ardal Penylan

Ffoniwch
07968 463737
am sgwrs a manylion pellach

## Colofnydd y Mis

**Gwilym E. Roberts**
Cadeirydd Pwyllgor Y Dinesydd

Tra dwi'n ysgrifennu hyn o golofn mae copi o'r Dinesydd cyntaf o'm blaen a ymddangosodd yn Ebrill 1973 sy'n golygu bod y papur hwn yn 38 eleni. Y Golygydd cyntaf oedd Norman Williams oedd yn digwydd byw yn Rhiwbeina ar y pryd ond sy bellach yn byw yn y Gogledd! Yn y rhifyn cyntaf mae'r Golygydd yn sôn am y ffaith fod angen y papur er mwyn mynegi ac adlewyrchu'n llawn fywyd Cymraeg y rhan hon o Gymru. Mae ei sylwadau yr un mor wir heddiw ag yr oedd hi 38 o flynyddoedd yn ôl.

Felly, er gwaethaf pawb a phopeth mae'r Dinesydd wedi dal i weld golau dydd, diolch i gnewyllyn o Gymry brwd oedd yn cytuno â barn y Golygydd cyntaf. Llwyddwyd tan y llynedd i ddosbarthu'r papur yn rhad ac am ddim - diolch i haelioni unigolion, mudiadau, cymdeithasau a chapeli'r ardal. Ond oherwydd y cynnydd yn y costau bu raid i'r Pwyllgor ddod i'r casgliad y byddai angen codi am y papur os oedd y papur am oroesi. Felly yn Ebrill 2010 dechreuwyd codi am y papur ond yn lle argraffu 3,000 o gopïau mis i'w ddosbarthu am ddim, dim ond 800 o gopïau sy angen ran ar hyn o bryd dan y drefn newydd.

Ond ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf ers codi am y papur, mae Pwyllgor y Dinesydd am ddiolch yn ddiffuant i bawb sy wedi archebu'r papur neu ei brynu mewn siopau ar hyd a lled y ddinas gan obeithio bod y darllenwyr wedi cael blas ar gynnwys y papur ar ei newydd wedd. Gobeithio y bydd pawb yn ail archebu'r papur gyda'r gobaith y gallwn godi'r cylchrediad i fil a mwy ar ôl mis Ebrill.

Rhaid diolch hefyd i'r holl hysbysebwyr, unigolion, mudiadau, cymdeithasau, capeli ac ati sy'n dal i gyfrannu arian o dro i dro i gronfa'r papur. Mae gwir angen y gefnogaeth ymarferol hon gan fod y costau yn uchel ond teimlaf yn sicr ein bod wedi troi'r gornel o safbwynt problemau'r papur yn y gorffennol a gallwn edrych ymlaen at weld y Dinesydd yn dal i adlewyrchu bywyd amrywiol y Cymry Cymraeg ym mhrifddinas ein gwlad am flynyddoedd i ddod.

*Sylwer:*
*Bellach gellir prynu copi o'r Dinesydd yn siop Veg Vendor, 8 Station Road, Radur, Caerdydd. CF15 8AA.*

## Cymrodorion Caerdydd

Ar nos Wener y 4ydd o Chwefror cynhaliwyd cyfarfod o'r Cymrodorion yn festri Capel Salem yn Nhreganna. Betsan Powys, golygydd gwleidyddol y B.B.C., oedd y siaradwraig a chawsom noson gofiadwy yn ei chwmni. Ei thestun oedd 'Y Cynulliad Cenedlaethol – y cam nesaf?'

Wrth gwrs, roedd yr hyn oedd ganddi i'w ddweud yn bwrpasol ac amserol iawn, a deallasom hefyd beth yw'r holl ystyriaethau y mae'n rhaid talu sylw manwl a gofalus iddynt wrth gyflwyno testun llosg fel y Refferendwm ar y Newyddion. Mae gan y ddwy ochr yr hawl i gael eu cynrychioli'n deg ac yn ddiduedd, a thipyn o dasg yw gwneud hynny.

Dechreuodd Betsan wrth gymharu'r sefyllfa yn yr Alban â'r sefyllfa yng Nghymru o safbwynt y driniaeth a geir yn y wasg a'r cyfryngau o wleidyddiaeth yn y naill wlad a'r llall. Mae papurau newydd Lloegr yn cyhoeddi argraffiad gwahanol yn yr Alban ac yn cyflwyno persbectif Albanaidd ar brif newyddion y dydd. Mae hynny'n ychwanegol i'r papurau cynhenid sydd ganddynt gylchrediad iach hefyd.

Mor wahanol yw'r sefyllfa yng Nghymru! Mae cylchrediad y Western Mail nawr o dan 30,000 ac un y Liverpool Daily Post yng Nghymru yn is. Papurau newydd Seisnig mae'r mwyafrif llethol o'n cyd-Gymry yn eu darllen a'r rheiny'n talu dim sylw o gwbl i faterion Cymreig. Mae'r sefyllfa cyn belled â'r radio a theledu, y rhaglenni newyddion a'r rhai trafod pwysig, megis 'Newsnight', yn union yr un fath. Diddorol oedd clywed bod derbyniad yr Alban o 'Newsnight' yn newid hanner ffordd drwy'r rhaglen gyda'r sylw wedyn ar faterion sy'n berthnasol i'r wlad honno'n unig.

Dim rhyfedd felly bod anwybodaeth a difaterwch ynglŷn â phob agwedd ar wleidyddiaeth mor echrydus o gyffredin yng Nghymru. Y sialens i Betsan a'i chydweithwyr yn y cyfnod cyn Mawrth 3ydd yw ceisio cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol i'r cyhoedd i'w galluogi i ddefnyddio'u pleidleisiau'n ystyrlawn gan ddeall yr hyn mae'r Refferendwm yn ei gynnig.

Roedd pawb a oedd yn bresennol yn gwerthfawrogi meistrolaeth Betsan o'i phwnc a'i gallu i drosglwyddo'r wybodaeth i'r gynulleidfa mewn modd mor fywiog a dealladwy. Cafwyd trafodaeth werthfawr i ddilyn, a'r disgwyl yw ein bod i gyd yn llawer mwy gwybodus nag oeddem ar ddechrau'r noson! Diolch, Betsan!

Oherwydd salwch ni fydd Hafina Clwyd yn gallu bod gyda ni i'n hannerch yng nghyfarfod nesaf y Cymrodorion. Mae Dr. Simon Brooks wedi cytuno cymryd ei lle ac rydym yn ddiolchgar iawn iddo. Dymunwn wellhad buan i Hafina ac edrychwn ymlaen at groesawu Simon ar 11eg o Fawrth yn Festri Minny Street am 7.30 y.h. Croeso i bawb!

*Rhiannon Gregory*

*Yn dilyn o dudalen 1*

Gobeithir hefyd ffurfio 'Cymdeithas Ffrindiau Cylch Meithrin Tŷ'r Cymry' er mwyn cefnogi'r cylch yn y tymor hir. Os oes diddordeb gan unrhyw un mewn helpu i sefydlu'r gymdeithas neu os oes syniadau eraill gennych, cysylltwch â ni, da chi!

Gall cyfraniadau ac ymatebion gael eu hanfon aton ni yn 62 Waterloo Road, Pen-y-lan, CF23 9BH neu mae croeso ichi gysylltu â ni trwy'r e-bost (jo.knell@btinternet.com) neu drwy ffonio (029) 2048 6677. Edrychwn ymlaen at glywed gennych!

*Jo Knell a Dai Bullock*

MUDIAD
YSGOLION
MEITHRIN

# Ysgol y Wern

Cafodd yr ysgol lwyddiant mawr yng Ngala Nofio Cenedlaethol yr Urdd ar ddiwedd mis Ionawr. Cynrychiolodd Menna Spittle, Alaw Donovan, Bethan Witchel, Bethan Evans, Nia Evans, Bethan Cross, Nia Jefferies a Lana Culliford y Sir yn erbyn nofwyr eraill o bob cwr o Gymru. Buom yn llwyddiannus tu hwnt gyda Menna Spitttle yn cipio'r wobr gyntaf yn y ras gefn a thrydydd yn y ras froga. Llongyfarchiadau hefyd i'r tîm cyfnewid merched (Bl 3 a 4) a ddaeth yn ail yn y ras gyfnewid rhydd ac yn drydydd yn y ras gyfnewid gymysg.



Bu ymwelwyr o Goleg Amddiffyn Brenhinol Llundain yn ymweld â'r ysgol unwaith eto eleni. Croesawyd yr ymwelwyr o wahanol rannau o'r byd. Fe ddaeth Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru i gwrdd â'r grŵp. Croesawyd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg, Mrs Ann Keane yn ddiweddar i'r ysgol.
Fe fu criw o ddisgyblion Bl6 yn holi Betsan Powys am y Refferendwm ar ddechrau'r mis. Fe fydd y cyfweliad yn cael ei ddarlledu ar raglen 'Ffeil'.

# Ysgol Pen y Groes



Daeth ymwelydd enwog iawn i Ysgol Pen y Groes ar Ddydd Iau Chwefror 17eg i gynnal gweithdy Cerdd gyda'r Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1. Roedd pawb wedi gwirioni gyda Tim Rhys-Evans arweinydd côr 'Only Men Aloud'. Roedd y staff a'r disgyblion i gyd wedi mwynhau yn fawr. Cawsom gyfle i berfformio Sosban Fach dan ei arweiniad. Diolch yn fawr iawn am ei ymroddiad a'i amser gyda'r plant.

# Ysgol Melin Gruffydd

Trefnwyd cystadleuaeth yn ddiweddar gan "Caerdydd yn erbyn Bwlio". Rhoddwyd cyfle i'r plant ysgrifennu ar y teitl "Fi yw fi" gan hyrwyddo hawl pob unigolyn i fod yn wahanol ac unigryw. Llongyfarchiadau mawr i Noah Linskey, blwyddyn 3, am ennill y gystadleuaeth. Daeth Jay Price (bl 4) a Rosie Sebury (bl 4) yn gydradd ail. Dyma gerdd Noah:

*Fi yw fi*
*Dydw i*
*Ddim yn oren,*
*Ddim yn Duracell,*
*Ddim yn copr-top,*
*Ddim yn rhydlyd,*
*Ddim yn Garfield,*
*Ddim yn sinsir*
*Noah ydw i!*



# Pasport



**Be ydy dy enw di?**
Angharad Thomas.

**O le wyt ti'n dod yn wreiddiol?**
O bentref Llandudoch yng ngogledd Sir Benfro.

**Ym mha ran o Gaerdydd wyt ti'n byw?**
Grangetown.

**Ers faint wyt ti'n byw yng Nghaerdydd?**
Ionawr 1999.

**Beth fuest ti'n ei wneud cyn[neu]ar ôl symud yma?**
I Goleg y Drindod, Caerfyrddin es i i wneud fy ngradd mewn Theatr Cerdd a'r Cyfryngau ac yna symud i Gaerdydd yn ystod fy nghwrs TAR i dreulio cyfnod o ymarfer dysgu yn Adran Ddrama Ysgol Gyfun Glantaf.
Roedd atyniadau'r ddinas yn ddigon i gadw fi rhag symud yn ôl i'r Gorllewin, felly treuliais nifer o flynyddoedd wedyn yn gweithio i amryw o gwmnïoedd teledu a theatr, yr Urdd, a Chlwb Ifor Bach ar ôl penderfynu peidio parhau gyda'r dysgu!
Treuliais bron i dair blynedd yn gweithio yn Adran Farchnata S4C (Dyddie Da!) cyn dechrau gyda Menter Caerdydd yn 2003. Mae'r wyth mlynedd diwethaf wedi bod yn llawer o hwyl, a'r Fenter wedi datblygu'n aruthrol! Mae tîm gwych o gydweithwyr a dwi wrth fy modd yn gweithio yno! Pwy a ŵyr beth sydd o'n blaenau, ond gobeithio y bydd y Fenter yma am flynyddoedd mawr i ddod!

**Beth wyt ti'n hoffi ei wneud yn dy amser hamdden?**
Mae gwaith y Fenter yn cadw fi'n ddigon prysur, ond dwi'n mwynhau treulio amser gyda ffrindiau a theulu! Dwi hefyd wrth fy modd yn gwylio a chefnogi rygbi (Cymru, Y Sgarlets a Chlwb Rygbi Cymry Caerdydd!!) a dwi wedi bod yn ddigon ffodus i ddilyn timoedd i bedwar ban byd! Dwi'n treulio tipyn o amser yn gwylio rhaglenni sydd wedi recordio ar y botwm coch hefyd! (Dwi ddim yn siwr sut oedd amser i wylio unrhywbeth cyn dyfodiad y botwm +!)

**Be sy'n gwneud i ti chwerthin?**
Ffrindiau, Tomos, fy nai, merched y swyddfa yn y Fenter a phobl yn cwympo!

**Beth sy'n dy wylltio di?**
Traffig a phobl sy'n gyrru fel ffyliaid a pharcio yn y llefydd mwyaf anghyfleus!

**Oes yna fannau yng Nghaerdydd wyt ti'n hoffi mynd iddyn nhw? Pam?**
Dwi wrth fy modd yn ardal y Bae – y lle perffaith i gwrdd â ffrindiau, cymdeithasu ac edrych mas ar draws y dŵr!

**Lle wyt ti'n hoffi mynd am wyliau?**
Dwi wrth fy modd yn mynd ar wyliau nôl i Sir Benfro, ond petai rhaid i fi ddewis un lle – Seland Newydd!

**Beth ydy'r peth mwyaf unigryw am Gaerdydd? Pam?**
Nifer fawr o Gymry ifanc o bob rhan o'r wlad wedi ymgynnull gyda'i gilydd!

**Lle wyt ti'n gweld dy hun mewn deng mlynedd?**
Pwy a yr – dal yn Nghaerdydd gobeithio!

# Yn Eisiau:

## Gwirfoddolwyr i gloncian!

Mae dosbarthiadau Lefel A Cymraeg Ail Iaith ysgolion Caerdydd yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu'r myfyrwyr i ymarfer eu Cymraeg.

Bydd y gwirfoddolwyr yn helpu allan am awr bob pythefnos. Does dim angen unrhyw wybodaeth am gwrs Lefel A, dim ond y brwdfrydedd i sgwrsio yn Gymraeg gyda phobl ifanc am bethau bob dydd.

Os oes gennych awr sbâr cysylltwch â:

Jo Knell,

Athrawes Ymgynghorol Ail-Iaith Uwchradd Cymraeg

jo.knell@caerdydd.gov.uk

02920 432713

# Ôl-Lwybrau

## Delwyn Tibbott

Droeon yn ystod fy mywyd mae pobl, nad ydynt yn fy adnabod, yn datgan syndod fy mod i'n siarad Cymraeg, am fod gen i gyfenw mor anghymreig. Gwaeth fyth, y mae'n torri un o reolau pwysicaf orgraff y Gymraeg trwy ddyblu cytseiniaid heblaw 'n' ac 'r'!
Ond mae'r bobl hyn yn dangos eu hanwybodaeth o le'r Tibbottiaid yn hanes Cymru. Dyna Richard Tibbott (1719-98) a chwaraeodd ran bwysig yn y Diwygiad Methodistaidd cyn mynd yn weinidog Hen Gapel Llanbrynmair. A John Tibbot (1757-1820) y gwneuthurwr clociau ac oriorau. (Mae un o'i glociau yn fy meddiant, ond yn anffodus nid yw'n 'cered' yn ei leoliad presennol). Ac y mae yna fwy: gweler erthygl fy nhad ar y teulu yn Y Bywgraffiadur Cymreig.

Fe gysylltir y teulu gan mwyaf â Sir Drefaldwyn. Bu fy nhad yn ddiwyd yn mynd trwy gofrestr Hen Gapel Llanbrynmair a'r cofrestri plwyf yn chwilio am Dibbottiaid, a cheisio penderfynu sut 'roedden' nhw'n perthyn i'w gilydd. Ond pan es i ati i chwilio fy achau, a llwyddo i fynd nôl i 1792, dyddiad priodas gyntaf fy hen hen hen daid, mi gefais mai pobl gogledd Sir Aberteifi oedden' nhw, yn byw yn ardal Talybont, Llangynfelyn ac Eglwys-fach. O ble daeth yr enw? Mae'n amlwg ei fod yn enw Ffrangeg, Thibaud yn yr iaith fodern. 'Rwy'n cael ar ddeall fod hwn yn enw bedydd eitha' cyffredin yn Ffrainc heddiw. Pan oedd fy ngwraig a minnau ar wyliau yn Ffrainc, ymwelsom â phentre bach St. Thibaud; cefais dynnu fy llun ger yr enw ar gyrion y pentre, a gweld sgerbwd yr hen frawd mewn cas gwydr dan allor yr eglwys.

Beth yw hanes y Tibbottiaid yr ochr hyn i Fôr Udd? Arferid meddwl mai ffoaduriaid Huguenot oedden' nhw, ond wfftiai'r Dr Iorwerth Peate y syniad hwnnw. Mewn erthygl ym mhapur Ninnau yn 1994, mae David Peate, achydd o Gilgwri, yn dangos eu bod i'w cael yn amryw o siroedd Lloegr yr yr oesoedd canol, yn enwedig yn y Gororau. Maen' nhw i'w cael yn sir Drefaldwyn o'r 15fed ganrif, a'u prif nodwedd yw eu bod yn Annibynwyr cadarn – gydag un eithriad: Tibbott oedd y gŵr olaf i'w grogi yng ngharchar Trefaldwyn, am lofruddio'i dad!

Serch hynny , mi 'rydw i'n arddel yr enw gyda balchder, a heb fymryn o awydd i'w newid.

# Adeiladau addas i Felin Gruffydd; Y twf yn parhau yn Nhreganna a Phwll Coch

Pleser mawr yw cael adrodd bod Leighton Andrews wedi rhoi baner werdd i gynllun y sir yn yr Eglwys Newydd i gael mynediad i borthladd clyd. Y darn o bwys i addysg Gymraeg wrth gwrs yw symud Ysgol Melin Gruffydd o safle Ysgol Eglwys Wen i gael meddiant llwyr o safle Ysgol Gynradd Eglwys Newydd ym Medi 2012, safle a fydd wedi cael gwariant dros £4M ar estyniadau a gwelliannau i'r adeilad hyfryd yr olwg sydd yno'n barod. Bydd yr ysgol newydd yn ddigon ei maint i gartrefu ysgol dwy ffrwd yn cynnwys dosbarthiadau meithrin. Mae RhAG yn croesawu'r ddarpariaeth deilwng hon ar gyfer plant Cymraeg yr Eglwys Newydd sy wedi dioddef adeiladau dros dro am gyfnod rhy hir. Mae'n debyg bod rhai o rieni Melin Gruffydd erbyn hyn wedi ysgrifennu at swyddogion y sir i ddweud ei fod yn edifar ganddynt wrthwynebu'r cynllun. Gwahanol o hyd yw agwedd rhieni'r ddwy ysgol Saesneg a'r gwleidyddion Tori a Llafur sy wedi eu cefnogi ond ni ddaw dim o'r bygythiad i geisio arolwg barnwrol ar sail abswrd bod y cynllun yn Wednesbury afresymol.

Eleni mae'r sir wedi mabwysiadu dull gwahanol o geisio dewisiadau rhieni am le i'w plant yn yr ysgolion cynradd. I ddechrau mae pob rhiant wedi cael gwybod bod y plentyn yn byw nid yn unig mewn dalgylch ysgol Saesneg ond hefyd mewn dalgylch ysgol Gymraeg. Yn ail gofynnir i bob rhiant osod ei ddewis o ysgol mewn trefn - dewis cyntaf, ail a thrydydd; fe ellid obeithio y bydd hyn yn osgoi apeliadau anobeithiol pryd bydd ysgol wedi derbyn yr uchafrif statudol o 30 y dosbarth derbyn.

Yn naturiol mae'r system newydd yn fwy cymhleth na'r hen un ac mae didoli'r dewisiadau wedi cymryd mwy o amser a hyd yn hyn mae'r sir wedi methu datgelu y rhifau terfynol. Mae'r system newydd hefyd wedi cynhyrchu atebion annisgwyl. Disgwylid i bob rhiant gyfyngu ei ddewis i ysgolion mewn un cyfrwng addysg ee i ddewis ysgol Gymraeg A, B neu C, ond nid felly. Mae ambell i riant wedi dewis fel #1, ysgol Gymraeg, #2, ysgol Saesneg a #3, ysgol Gymraeg. O leiaf mae hyn yn esbonio beth ddigwyddodd y llynedd i'r 20 plentyn (tua) a ddewisodd addysg Gymraeg, methodd â chael yr ysgol ddewisedig, aeth i apêl ac wedyn diflannodd o'r system Gymraeg.

Eleni fe welwyd fod rhywle rhwng 140 i 150 wedi ceisio'r cyfanswm o 120 lle ar gael yn Nhreganna, Tan-yr-eos a Phwll Coch gyda'i gilydd. Wedi rhoi'r 120 lle i'r rhai blaenaf yn y gwt roedd modd lleoli rhai plant mewn ysgolion cyfagos oedd yn ail neu drydydd dewis ond o hyd roedd rhyw 20 plentyn yn ddigartref. Wrth ystyried bod y galw wedi bod yn uwch na'r ddarpariaeth yn y 2 flynedd diwethaf daeth y swyddogion i'r casgliad nad rhyw frig dros dro oedd y 150 plentyn ond arwydd pellach o dwf parhaol ac felly bod dyletswydd ar y sir i gwrdd ac angen yr ardal am addysg Gymraeg trwy gynyddu'r ffrydiau o 4 i 5 ar fyrder. Does dim eisiau dweud bod safleoedd Treganna a Than-yr-eos mor llawn â'r adeiladau sy'n eu llenwi a bod y sir wedi methu dod o hyd i adeiladau eraill addas yn wardiau Treganna, Glanyrafon a Threfynach. Dim ond un safle sy'n cynnig lle i ystafell dosbarth mewn argyfwng sef safle Pwll Coch ac mae'r swyddogion wedi hysbysu'r pennaeth a'r llywodraethwyr o'u bwriad i argymell codi adeilad dros dro i dderbyn yr 20-30 plentyn heb gartref arall iddynt gael addysg ynddo yn 2011/12. Nid oes angen cyfreithiol i gynnal y proses o ymgynghori ar gyfer ymateb i argyfwng fel hyn. Wrth gwrs mae'r twf eleni yn cadarnhau y twf a welwyd yn 2009/10 ac yn ei wneud yn bur debyg y bydd y sir yn symud ymlaen â'r proses hirdymor o ledaenu Pwll Coch i fod yn ysgol 3 ffrwd a ddechreuwyd gyda phenderfyniad i'r perwyl a gymerwyd gan Is-bwyllgor yr Ysgolion fis Rhagfyr y llynedd. Ond ni fydd yr ymgynghoriad hwn yn dechrau heb fod cynllun codi adeiladau parhaol ar gael a chyllideb i dalu amdano.

Ar wahân i'r problemau yn ardal y de-orllewin mewnol mae'n debyg bod y ddarpariaeth a'r galw yn cyfateb yn lled dda ar draws y ddinas, yn arbennig os nad oes rhaid i'r dalgylchoedd sy'n ffinio â'r ardal broblemataidd yn gorfod derbyn plant y gorlif. Mae Nant Caerau bron yn llawn eto ond mae Coed-y-gof wedi gweld y niferoedd yn haneri o'r sefyllfa ryfedd oedd yn bodoli llynedd. Mae Pencae, Gwaelod-y-garth a'r Creigiau yn gyfforddus llawn unwaith eto. Mae niferoedd Glan Ceubal (Gabalfa) o hyd yn fach iawn sy'n tarddu i raddau o'r ffaith nad oes gan yr ysgol ddalgylch, peth a ddaw yn fuan yn awr.

Bydd Melin Gruffydd unwaith eto yn derbyn 2 ffrwd, lefel nid oes rhaid i'r Wern fynd drosto am flwyddyn arall. Mae Mynyddbychan yn debyg o dderbyn ffrwd gyfan a'r Berllan Deg 2 ffrwd. Mae niferoedd Penygroes yn cynyddu heb gyrraedd y 30 posibl. Mae Glanmorfa yn parhau i dyfu'n gyson ac yn agosáu at dderbyn yr uchafrif am flwyddyn. Mae Pen-y-pil wedi tyfu, yn manteisio wrth gyrraedd safle parhaol. Gwelir y nifer arferol yn cyrraedd mam-ysgol Tuhwnt-i'r- Rhymni sef Bro Eirwg.

Felly mae cyfanswm y plant sy'n derbyn cynnig o le mewn addysg Gymraeg o hyd yn niwlog ond yn debyg o fod heb gynnydd sylweddol. Serch hyn bydd y nifer o lefydd sy'n cael ei ddarparu yn codi o 665 i 710 sef 24 ffrwd (ychwanegiad swyddogol at rif mynediad Melin Gruffydd o 45 i 60 a ffrwd ychwanegol dros dro ym Mhwll Coch).Disgwylir ychwanegu at y cyfanswm y plant i rieni sy'n symud i'r ddinas rhwng nawr a mis Medi a'r rhai nad yw yn poeni i gydymffurfio â gofynion rhesymol biwrocratiaeth ond yn disgwyl lle i'w plant wrth ymddangos ar ddiwrnod cyntaf tymor yr Hydref.

Yr unig bwnc o bwys ar gyfer y sector uwchradd yw ymgynghori ar ddalgylchoedd y 3 ysgol uwchradd Gymraeg fydd yn y ddinas erbyn 2012. Mae'r proses wedi symud o ymgynghori â'r penaethiaid i drafod gyda'r llywodraethwyr a'r rhieni. Mae penderfyniad ar y dalgylchoedd wedi dod yn fater o frys am nad oes modd penodi corff llywodraethol cysgodol i'r drydedd ysgol heb gael cynrychiolwyr y rhieni sydd yn cael eu dewis gan yr ysgolion yn y dalgylch. O reidrwydd ni fydd pennaeth na chynrychiolwyr y staff am fisoedd; mae angen cynrychiolwyr y rhieni i ymuno â'r rhai a enwebir gan y sir i gyfethol y trydydd dosbarth sef rhai i gynrychioli pobl a busnesau'r ardal. Y tri dosbarth hyn bydd yn dewis enw i'r ysgol a mynd ati i benodi pennaeth fydd eisiau bod yn ei swydd erbyn dechrau 2012, sef llai na blwyddyn o nawr. Mae'r sir yn cynnig creu dalgylchoedd daearyddol, gyda'r ysgol newydd yn derbyn, i ddechrau, 4 ffrwd o ysgolion Bro Eirwg a'r Berllan Deg, gydag ysgolion Pen-y-pil a Phenygroes yn ymuno â nhw yn hwyrach. Bydd Glantaf yn cadw gweddill yr ysgolion ar ochr ddwyreiniol afon Taf (Y Wern, Glanmorfa, Mynyddbychan a Melin Gruffydd) ynghyd â'r plant sy'n mynychu Gwaelod-y-garth neu Pencae ond yn byw i'r dwyrain o'r Taf (plant Tongwynlais, Coryton, Pantmawr, Ystum Taf ac Ystad Gabalfa). At hyn bydd dalgylch Pwll Coch yn cael ei ychwanegu i osgoi cael gormod o blant ym Mhlasmawr sydd yn gallu derbyn 6 ffrwd yn erbyn 8 Glantaf. Bydd Plasmawr yn y dyfodol yn derbyn plant Nant Caerau ac yn cadw Treganna fydd yn ymuno â Than-yr-eos yn yr ysgol newydd; felly yr ysgolion i fwydo Plasmawr i ddechrau bydd Coed-y-gof, Treganna, Y Creigiau, Pencae a Gwaelod-y-garth (ac eithrio plant tu hwnt i'r Taf) ac yn hwyrach fe ddaw plant Nant Caerau a Than-yr-eos. Bydd plant Glan Ceubal yn naturiol yn symud ymlaen i Lantaf.

Michael Jones

## Sba iechyd newydd, a chynnig arbennig i ddarllenwyr Y Dinesydd

Dych chi'n hoffi ymlacio a chael triniaeth mewn sba? Wel, mae sba newydd hyfryd wedi agor yn ddiweddar yn 72 Ffordd Kimberley, Penylan sy'n cynnig nifer o driniaethau gwahanol. Mae Blwyddyn y Teigr yn cynnig triniaeth gyfareddol a hynod effeithiol, sef Garra Rufa, lle mae dwsinau o bysgod trofannol, a adwaenir fel Pysgod Iachaol, yn gweithio i lanhau ac adnewyddu eich croen.

Y person yn tu ôl i'r Sba arloesol hwn yw Mari Arthur. Daw Mari'n wreiddiol o Drimsaran yn Sir Gâr ond fe symudodd i Aberystwyth i astudio ar gyfer MA mewn Llenyddiaeth cyn symud ymhellach i'r gogledd, i Lanystumdwy yng Ngwynedd, ar gyfer ei rôl gyntaf ym maes marchnata. Symudodd Mari wedyn i Gaerdydd yn 2000 i ymgymryd â swydd farchnata yng Ngholeg Cerdd a Drama Frenhinol Cymru. Ers hynny mae Mari wedi cyflawni amrywiaeth o rolau marchnata ym Mhrifysgol Abertawe, Prifysgol Caerdydd ac fel ymgynghorydd annibynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dros y saith mlynedd diwethaf mae Mari wedi teithio'n eang i Dsieina a'r Dwyrain Canol gyda swyddi a phrosiectau amrywiol ac fe grëwyd argraff arni gan y modd y mae technegau tylino ac ymlacio'n rhan mor fawr o fywyd yn y Dwyrain. A hithau wedi bod i gyfarfodydd mewn sbaon yn Nhsieina ac wedi cael tylino'r traed gyda chydweithwyr wrth iddynt drafod busnes a chael ei hysbrydoli gan yr agwedd Ddwyreiniol at les, fe benderfynodd Mari agor rhywbeth yng Nghymru a fyddai'n cynnig triniaethau ymlacio i unrhyw un a phob un sy'n dymuno'u cael am bris fforddiadwy.

Er bod y pysgod Garra Rufa yn nodwedd unigryw ar Sba Iechyd Blwyddyn y Teigr, nid dyma unig gysylltiad Mari â'r Dwyrain Pell. Mae Mari hefyd wedi mabwysiadu polisi bod 10% o'i helw'n mynd at apêl Half the Sky Foundation ar gyfer plant amddifad yn Nhsieina. Dyma'r ganrif pan fo Tsieina wrthi'n dod yn archbŵer yn yr un modd â'r DU yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r UD yn yr ugeinfed ganrif. Bydd y ffocws ar wneud busnes gyda Thsieina ac efelychu arferion dwyreiniol gan fynd ati ar yr un pryd i geisio hudo gwŷr busnes o Tsieina i gydweithio gyda ni.

**Mae Sba Iechyd Blwyddyn y Teigr yn cynnig 45 munud o ddylunio wyneb a 30 munud o ddylunio traed am £30 i ddarllenwyr y Dinesydd. Os hoffech chi fanteisio ar y cynnig yma ffoniwch 02920450050.**


## Y Dinesair

Rhif 111

Croesair gan Rhian Williams

Atebion:
22 Heol Cae Rhys
Rhiwbeina
CF14 6AN

i gyrraedd erbyn 17 Mawrth 2011



**Ar Draws**

7. Cymro da yw e' yn haeddu ei ganmol. (10)
8. Rhoi tail cymysg i'r gwanllyd. (4)
9. '___ wy'n ei cheisio
A'i cheisio eto wnaf'. (T.W.) (8)
11. Cael ysbaid yn ôl mewn dilledyn newydd. (5)
12. Man i ddechrau llosgi offrwm cariad. (3)
15. 'Dy Ysbryd pur yn unig
Sydd yn ___ nghân'. (D.W.) (6)
16. Caf lwyddiant ond ag anlwc yn rhan ohonno. (6)
17. Enwogion golau. (3)
20. Rhaid dogni i gael ein gwala. (6)
21. 500 yn ffrio wyth druan a'u parlysu. (8)
24. 'Heb un tafod yn ___'
Heb un bron yn meithrin brad'

**I Lawr**

1. Efallai y gwaherddi ni rhag canu rhain. (10)
2. 'Dyma gyfaill bery'n ffyddlon,
___ ___ ___ ___ well na brawd'. (E.R) (2,1,3,2)
3. Disgleirio yn dawel mae ei fro anwadal. (6)
4. Ysgeintio fy hoff bentwr gwair! (5)
5. Cywasgu'r cwynwr fel gwêr. (4)
6. Llwybr uchel iawn o'r dde yn ddidiwedd. (4)
10. 'Planna'r ___ hynny
Yn fy enaid bob yr un' (W.W) (10)
12. Cywasgu'r llwyddiannus i gael ffrwyth. (3)
13. Cymdeithas moduro yn codi'r cerbyd. (3)
14. A oes ffordd i foi clên wneud pobl sâl? (8)
18. Gadael allan yr eirth o'i lle. (6)
19. Y di-sŵn yn taro deuddeg. (5)
21. Cleddyf i'r dialgar ar yn ail. (4)
22. Yn uchel iawn mae 17 yn cefnu ar y newydd. (4)

**ATEBION RHIF 110**

**Ar Draws**
1. Mwynhau; 4. Tagu; 6. Cydymdeimlad; 8. Naws; 9. Llifo; 10. Chwa; 12. Inlwyn; 13. Mantol; 16. Iach; 18. Eira; 19. Torch; 20. Fy nhâd gerllaw; 21. Poen; 22. Gwasgod

**I Lawr**
1. Mecaneiddio; 2. Yn dawel; 3. Unedig; 4. Tymhorau; 5. Gwalch; 7. Haul a chawod; 11. Rhyfedd hwn; 14. Troellog; 15. Trideg; 17. Chwyddo


Asiantaeth Cyflenwi **Athrawon**

BAY Resourcing



Os ydych yn Athro Cynradd neu Uwchradd, Cynorthwydd Dysgu neu Ysgrifennydd Ysgol galiwn gynnig:

**Gwaith Rheolaidd**
•
**Amserlenni a dyddiadur ar-lein**
•
**Cyfraddau dyddiol cystadleuol**
•
**Lwfans Teithio a Chinio**

Gwe: www.bayresourcing.com Ebost: info@bayresourcing.com
Ffôn: 02920 494560
Cyfeiriad: 127 Bute St, Bae Caerdydd, CF10 5LE

# Cymdeithas Wyddonol Caerdydd

## Chwefror 7fed

Daeth Sara Ward atom i sôn ychydig am ei gwaith yn optegydd. Dewisodd y teitl, 'Trethi, marwolaeth... a presbyopia', gan aralleirio sylw Benjamin Franklin. Term anghyfarwydd yw presbyopia i'r mwyafrif o bobl er ei fod yn gyflwr cyffredin iawn, yn arwyddo dirywiad yn y llygaid, fel arfer yn ddilyniant i heneiddiad naturiol y corff dynol. Yn ein pedwar degau y bydd y mwyafrif ohonom yn canfod newid yn ein gweld. Wrth gwrs, nid presbyopia yw'r unig arwydd o'n cyrff yn mynd yn hŷn, bydd cyhyrau yn llai nerthol, yr ysgyfaint yn llai effeithiol, yr ymennydd yn simsanu.

Diolch byth, roedd hynawsedd cyflwyniad Sara yn cynnal yr aelodau (y mwyafrif yn neu dros eu pedwardegau) rhag syrthio i ffos anobaith parthed disgleirdeb eu dyfodol.

Cyfeiriodd at ddau hanesyn. Am lawfeddyg newydd-ymddeol oedd y cyntaf. Hwnnw yn mynd at optegydd am brawf a derbyn, am y tro cyntaf erioed, sbectol. Pan wisgodd y sbectol cafodd, yn llythrennol a ffigurol, agoriad llygad, gan ryfeddu at eglurder y gweld. Mae'n debyg iddo feithrin strategaethau amrywiol i gwrdd ag anghenion newydd ei lygaid, newidiadau nad oedd am eu cydnabod am eu bod, yn ei dŷb ef, yn cyhoeddi dyfodiad henaint. Tybed faint o'i gleifion...gwell peidio...

Am y gwyddonydd enwog Isaac Newton oedd yr ail hanesyn. Mae'n debyg na wisgai Newton sbectol ar unrhyw adeg yn ei fywyd, hyn yn awgrymu iechyd cyffredinol da iawn. Ond tybiaeth Sara oedd bod Isaac yn gweld pethau agos yn dda, megis darllen llyfr a thrin offer gwyddonol, sef, gofynion ei waith, ond yn gweld pethau pell yn aneglur, ond nid oedd galw arno i weithredu'r ddawn honno. Felly ni thybiodd fod dirywiad yn digwydd ac yn tybio bod pawb yn gweld pethau pell yn aneglur – yn bennaf am eu bod yn bell. Esboniodd Sara y siart prawf a ddefnyddir gan optegwyr a'r llawfer berthynol. Er enghraifft, 6/6 yn golygu y gallwch weld llythrennau maint 6 ar bellter o 6 metr. Hyn yw symbol 'normalrwydd', gyda 6/12 yn waeth a 6/3 yn well.

Gweld pethau pell yn glir yw'r naturiol. Awgrymodd y siaradwraig bod a wnelo hyn â'n gorffennol pan oedd angen gweld anifeiliaid o bell ar gyfer hela a goroesi. Yn yr un modd cyfrannodd esblygiad at ddefnydd gwahanol o lygaid gyda'r gofyn am weld yr agos yn glir, er enghraifft i wahaniaethu rhwng planhigion gwahanol.

Colli ystwythder yn lens y llygaid yw achos o presbyopia.. Wrth i ni fynd i mewn i'n 40au mae lens y llygad yn dechrau mynd yn fwy anhyblyg, yn fwy crisialog a hyn yn arwyddo newid cemegol yng nghyfansoddiad y lens - proses a all arwain at gyflwr yr ydym yn ei alw cataract. Mae'n broses anochel na ellir mo'i arafu gan ein hymddygiad. Mae atal ysmygu, gwisgo sbectol haul, bwyta'n iachus yn helpu ond nid yw ymarferion llygaid na mynd heb sbectol.

Ar un lefel, mae'r rhagfarn yn erbyn gwisgo sbectol yn seiliedig ar ffeithiau. Ar lefel arall, mae'n rhaid bod sbectol darllen ymhlith dyfeisiadau mwyaf y 500 mlynedd diwethaf. Allwch chi feddwl am unrhyw beth arall mor syml ac eto mor effeithiol?

Soniodd ein siaradwraig am fathau mwy diweddar o sbectol darllen – lensys deuffocal, lensys amryfath, lensys cyffwrdd – sy'n hwyluso gweld yr agos a'r pell yn glir heb orfod newid y sbectol - na'i cholli.

Un cywiriad nad yw'n wir bosib hyd yma yw laser ar gyfer presbyopia, er bod triniaeth laser yn gwella gweld pethau pell. Y cyngor pennaf yw mynd at yr optegydd os oes unrhyw amheuaeth. Diddorol i aelodau'r gynulleidfa oedd clywed y rhestr o arwyddion cynnar salwch corfforol a ddangosir gan brawf llygad. Rheswm da arall dros fynd yn rheolaidd at yr optegydd. Ar ben hyn, mae trefniant yng Nghymru yn caniatáu i optegydd daro cysylltiad uniongyrchol ag arbenigwr ysbyty parthed arwyddion salwch ar sail prawf llygad, heb fynd trwy'r meddyg teulu, fel sydd rhaid yn Lloegr.

Felly dyna presbyopia. Mor gyffredin â marwolaeth a threthi, ond yn haws ei ddatrys.

# Ysgol Nant Caerau

### Diolch i'r Dinesydd

Hoffem ddiolch yn fawr i'r Dinesydd am gyhoeddi ein newyddion ar dudalen flaen y papur nôl ym mis Medi. Roedd balchder mawr ymhlith y staff a'r plant wrth weld y papur. Mae'r cyfnod cyffrous yn parhau wrth i'r ysgol dyfu a sefydlu. Mae 57 o blant llawn amser yma nawr a chawsom newyddion yn ddiweddar bydd ein Meithrin yn llawn yn y flwyddyn newydd gyda 32 o blant!!

### Hwyl am y tro

Roedd tristwch yma yn Nant Caerau wythnos diwethaf wrth i Miss Lynwen Roberts, un o'm cynorthwywyr yn y dosbarth Derbyn ein gadael am gyfnod. Mae Miss Roberts wedi derbyn rôl actio gyda Theatr Genedlaethol Cymru!! Mi fydd hi yn mynd ar daith gyda'r cwmni ond yn dychwelyd atom yn Nant Caerau ym mis Mai. Pob lwc i ti Miss Roberts!! Yn y cyfamser mae Lynwen arall wedi dechrau gyda ni yn lle Miss Roberts, sef Miss Lynwen Harris. Mae Miss Harris wedi bod yn athrawes nofio ac wedi gweithio fel cynorthwyydd mewn Ysgol Anghenion Arbennig yn ardal Wrecsam. Croeso mawr i ti Miss Harris!!

### Ffeil

Mae plant Ysgol Gymraeg Nant Caerau yn enwog yn barod!! Dangosodd y rhaglen Ffeil ddiddordeb yn ein stori, sef ysgol newydd Gymraeg yn agor yn y ddinas. Cafodd plant blwyddyn 3 eu cyfweld ac ymddangosodd Felicity Alexander, Thomas Gallimore a Harvey Mohamed ar y rhaglen. Ardderchog blant!!

### Ymwelydd o Wlad y Basg

Daeth Julia Barnes, sy'n darlithio ym Mhrifysgol Mondragon yng Ngwlad y Basg i ymweld â'r ysgol. Mae ganddi ddiddordeb mawr yn y twf mewn addysg Gymraeg yn ein prifddinas ac roedd am ddysgu mwy. Mae tebygrwydd mawr rhwng sefyllfa'r Basgwyr a ni'r Cymry wrth i ni geisio amddiffyn ein diwylliant a'n iaith. Roedd Ms Barnes wrth eu bodd yng Nghaerau ac roeddem yn falch iawn o'i chroesawu atom.

# Llongyfarchiadau

*i'r darlledwr adnabyddus Gethin Jones ar ei ddyweddïad â'r gantores adnabyddus Katherine Jenkins. Dyweddïon nhw tra ar wyliau ym Mecsico a'r bwriad ydy priodi rywbryd yn 2012.

* i Tomos Guy, y Bontfaen a Lowri Evans o Aberystwyth ar eu dyweddiad ar y 7fed o Chwefror.

*i Rhodri a Haf Tilsley o Radur ar enedigaeth Anna Fflur, chwaer fach i Garmon Llŷr ar y 5ed o Chwefror. Mae Anna Fflur yn wyres i Gareth a Margaret Tilsley, Bangor a John a Rita Williams, Caernarfon.

* i Ricardo ac Angharad Martinez, Parc Victoria, ar enedigaeth Soffia Rhys Diaz ar yr 16eg o Ionawr, chwaer fach i Elian Rhys ac wyres i Garwyn a Non Davies, Penarth.

# Bwrlwm Bro Eirwg

### Dydd y Pysgod
Cafodd plant Blwyddyn 2 ddiwrnod gwych wrth ddefnyddio pysgod go iawn fel estyniad i'w gwaith ar y llyfr 'Pysgod Dewi'. Bu'r plant yn dylunio, pwyso, mesur ac yn arsylwi ar y pysgod. Cyfle gwych i ddysgu yn ymarferol mewn awyrgylch gyffrous.

### Cwmni drama'r Arad Goch
Daeth y cwmni i'r ysgol i berfformio gyda phlant Blwyddyn 1. Teitl y sioe oedd 'Cerrig'. Dechreuodd y sioe tu allan yn yr awyr agored wrth i'r plant gasglu cerrig, ac yna defnyddiwyd y cerrig mewn ffyrdd creadigol gan ysgogi dychymyg y plant. Cafodd pawb brynhawn wrth eu bodd.

### Kung Hei Fat Choy!
Yn y Dosbarth Derbyn cawsom hwyl a sbri yn dathlu Blwyddyn Newydd Tsieineaidd – Blwyddyn y Gwningen. Buom yn paratoi a bwyta nwdls, craceri gorgimwch ac yfed coctêl coch. Roedden ni wedi creu draig fawr, llusernau, rubanau draig ar gyfer ein gorymdaith drwy'r ysgol. Daeth Mrs Tanwen James i mewn i rannu ei phrofiadau o fyw yn Hong Kong. Mwynheuodd y plant ddysgu am arferion y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Ewch i weld ein dathliadau ar wefan yr ysgol.

### Pêl – rwyd
Ar ddydd Mercher y 9fed o Chwefror, ymunodd dîm pêl-rwyd yr ysgol gyda 24 ysgol arall, i gystadlu yn Nhwrnament yr Urdd. Cawsom ni gêm anodd a chyflym iawn yn erbyn Ysgol Eglwys Newydd yn y rownd gynderfynol. Gorffennodd y gêm 3-3. Chwareuon ni amser ychwanegol, y cyntaf i sgorio oedd yn ennill. Gyda ein hymosodwyr cryf yn pasio'r bêl yn gyflym, sgoriodd Bro Eirwg o fewn munud i symud ymlaen i'r rownd derfynol! Roeddem yn gwynebu ennillwyr Cymru, sef Ysgol Marlborough. Gyda'u pasio arbennigol, a'u traed cyflym, llwyddodd Marlborough i gadw'r bêl i ffwrdd o gylch Bro Eirwg. Llongyfarchiadau i dîm Marlborough, ond mae'n rhaid cymeradwyo Bro Eirwg am wneud mor wych! Gallen nhw fod yn falch o'u perfformaid!

### Rygbi
Mae wedi bod yn amser prysur ers y Nadolig i'r tim rygbi wrth iddyn nhw barhau yn ddi-guro.
Curwyd Ysgol Rhiwbina mewn gem galed, 38 pwynt i 7 gyda Jake Hillman (12), Karlin Clardige (2), Harry Ryan a Callum Baldwin yn sgorio ceisiau. Cicodd Jake 4 trosiad.
Yna cafwyd buddiogoliaeth yn erbyn St. Peter's. 50 pwynt i 0. Sgoriodd y ceisiau gan Jake Hillman (4), Ethan Machie (2), Callum Baldwin (2), Lloyd Smith a Thomas Callow.
Yng Nghwpan Sinclair curwyd St Alban's o 62 i 0. Y sgorwyr oedd : Jake Hillman (4), Karlin Clardige (3), Harri Phillips (2), Daniel Harley, Callum Baldwin, a Harri Ryan.

Ar nos Fawrth daeth ein prawf mwyaf o'r tymor yn erbyn Ysgol y Gadeirlan, Llandaf. Roedd hi'n gêm hynod o gystadleuol gyda'r Gadeirlan ar y blaen tan symudiad olaf y gêm. Er hyn llwyddodd Karlin Claridge i groesi'r llinell gais ac er gwaethaf y pwysau ar ei ysgwyddau fe gafodd trosiad Jake Hillman drwy'r pyst. Buddigoliaeth i Fro Eirwg o 14 i 12!

# Ysgol y Berllan Deg

### Chwaraeon
Bu'r tîm pêl droed yn cystadlu yng Nhwrnament yr Urdd yng Ngerddi Sophia. Ennill 3 gêm a dod yn gyfartal mewn tair fu ein hanes. Er hynny roedd Coed y Gof ar frig y tabl yn dilyn eu record nhw. Da iawn fechgyn. Hefyd, cafwyd gemau rygbi yn ddiweddar rhwng Ysgol yr Eglwys Newydd. Colli fu ein hanes o 12-24 ond bu'n gystadleuaeth hynod o gystadleuol. Rydym yn edrych ymlaen yn arw at gemau yn erbyn Ysgol St Philip Evans ac Ysgol St Cadoc ar ôl y gwyliau.

### Cyfarchion
Llongyfarchiadau mawr i Mrs Rhian Bishop ar enedigaeth merch, Lili Alaw.

Hefyd, dymunwn yn dda i Miss Catrin Osborne fu gyda ni am gyfnod fel cynorthwy-ydd dosbarth – pob lwc gyda'r teithio i bedwar ban y byd!

### Celf yr Urdd
Llongyfarchiadau i'r canlynol am wneud yn dda yng nghystadleuaeth celf yr Urdd:

1 Glesni Beasley 64: Graffeg Cyfrifiadurol Bl. 2 ac iau; 3 Glesni Beasley 127: Printiau Lliw Bl. 2 ac iau; 3 Mabli Beasley 7: Gwaith Creadigol 2D Bl. 3 a 4 (Unigol neu Grŵp); 1 Mabli Beasley 65: Graffeg Cyfrifiadurol Bl. 3 a 4.

# Ysgol Pwll Coch

Hoffwn estyn croeso gwresog i'n dirprwy newydd Mrs Jan Jones. Mae hi wedi creu cryn argraff ar staff a phlant yr ysgol yn barod.

Pan ddychwelon ni ar ôl y gwyliau, cafodd yr adran iau foddhad wrth i Rhodri a Christine Jones gynnal gwasanaeth am draddodiadau Calennig Cymreig. Roedd y neuadd dan ei sang wrth i'r plant ddysgu am Galennig. Roedd yr adloniant yn wych, bu gwisgo lan a llawer o ddifyrrwch. Nid dathlu traddodiadau Cymreig yn unig fyddwn ni ym Mhwll Coch. Buom yn dathlu Blwyddyn Newydd Tsieineaidd hefyd.

Bob blwyddyn bydd yr adrannau Meithrin a Derbyn yn gorymdeithio o amgylch yr ysgol er mwyn dathlu a dangos yr hyn a grëwyd. Gwnaethant ddreigiau ffantastig a lliwgar gan fwynhau'r profiad gwych!! Hyfryd oedd gweld y plant wedi gwisgo ac yn mwynhau'r dathliadau. Lliwgar iawn oedd y dathlu.

### Gweithgareddau'r ysgol
Yn ystod y mis diwethaf mae dau aelod o Dîm Ysgolion y Gleision, Andy a Sophie, wedi dod i hyfforddi plant yr adran Iau. Maent wedi mwynhau yn fawr, ac yn teimlo fod y cyfleoedd yma wedi eu hysbrydoli i arwain bywydau mwy actif. Mae'r merched hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael blas ar gêm mae bechgyn yn ei fwynhau cymaint, ac yn awyddus i chwarae eto. Gwell i dîm Dai Young fod yn wyliadwrus iawn!!

Cafodd plant o flyddynoedd 3-6 gyfle euraidd i ymweld â Stadiwm newydd Clybiau Pêl-Droed a Rygbi Caerdydd. "Mae hyn yn gyfle gwych i blant na fydden nhw fel arfer yn cael y cyfle i ddod i'r gemau ac i ymweld â'r Stadiwm" dywedodd Daniel Rees o flwyddyn 6. "Roedd e'n gyffrous iawn cael mynediad i'r ystafelloedd newid a chael eistedd yn seddi'r chwaraewyr enwog, fel Craig Bellamy, yn ogystal â chael cyfle i fynd i ochr y cae chwarae. Dim ond chwaraewyr sy'n cael mynd i'r llefydd yma fel arfer," dywedodd Owen Holloway. Buom yn yr ystafell golchi cit lle bu y staff hynny yn tynnu lluniau o'r bechgyn yn dal crysau eu hoff chwaraewyr. Roeddynt yn amyneddgar iawn!

Diolchwn i'n tywysydd,Phil am ei groeso, a phopeth a ddysgodd i ni yn ystod y daith. Diolchwn o waelod calon i Mrs Davies am drefnu diwrnod i'r brenin i'r holl ddosbarthiadau.

# Newyddion o'r Eglwysi

## EGLWYS Y CRWYS

### Y Grŵp Merched

Siaradwr gwadd y grŵp yma ar ddechrau Chwefror oedd Tannwen James, neu efallai y dylid cyfeirio ati fel Tannwen Jarman yng nghylchoedd Caerdydd gan iddi dreulio ei blynyddoedd cynnar ym mro y Dinesydd. Siarad yn hynod o ddiddorol am lwybrau ei bywyd a wnaeth Tannwen, am ei chyfnodau byr ym Mryste, Jamaica a'r Taleithiau Unedig cyn ymsefydlu yn ninas boblog Hong Kong lle y bu hi a'r teulu am wyth mlynedd ar hugain cyn dychwelyd i Gymru yn gymharol ddiweddar. Stori ryfeddol gwerth ei hadrodd i gynulleidfa werthfawrogol.

### Y Gorlan

Prynhawn Dydd Mercher Ionawr 26ain ein gwraig wadd oedd Elenid Jones ac fe gafwyd sgwrs ddifyr a gwerthfawr ganddi yn olrhain hanes maes cenhadol yr Annibynwyr ar Ynys Madagascar bellennig yng Nghefnfor India. Roedd clywed am wrhydri y cenhadon cynnar hyn o'r flwyddyn 1818 ymlaen yn ddigon o ryfeddod; llesteiriwyd eu gwaith yn aml gan y diffyg adnoddau yn enwedig ym maes addysg, iechyd a chyfathrebu, serch hynny erys y cof am waith ac ymdrechion yr arloeswyr cynnar hyn ym mhlith y brodorion.

Pythefnos yn ddiweddarach David Jones oedd ein gŵr gwadd a chawsom ganddo fesur helaeth o'i atgofion yn fachgen ysgol yn ardal Corris yn ogystal â rhai o'i argraffiadau o'r newidiadau a fu ym mrethyn bywyd a chymdeithas dros gyfnod o ganrif. Cyfeiriodd at aelodau o'i deulu ef yn ymfudo i'r Taleithiau Unedig mewn cyfnodau o dlodi affwysol a diffyg gwaith dibynnol. Collodd arian eu gwerth, roedd ganddo frith gof am y ffyrling mewn cylchrediad ond hedfanodd y dryw bach i ffwrdd ers blynyddoedd lawer ac ni ddaw yn ôl. Diolch David am brynhawn difyr.

### Y Gymdeithas

Ar Nos Wener Chwefror y 18 fed cafodd aelodau y Gymdeithas gyfarfod difyr iawn ar ffurf cwis cymdeithasol a drefnwyd gan Hanna Jones. Roedd y festri wedi ei threfnu fel bod lle i bawb i eistedd o gwmpas byrddau bychain a'r cwestiynau cyffredinol yn rhoi lle a chyfle i'r aelodau i ymgiprys â'u gilydd mewn awyrgylch o hwyl. Ar ddiwedd yr ymryson cafodd y tîm buddugol gyfle i rannu bocs o losin rhwng yr aelodau a chafwyd noson werthfawr a fwynhawyd gan bawb.

### Y Gymdeithas Ddrama

Ar hyn o bryd mae'r Gymdeithas hon yn paratoi cynhyrchiad o ddrama I.D.E. Thomas Ar Brawf ar gyfer Nos Sul yr 17eg o Ebrill. Drama yn ymwneud â'r Pasg yw hwn, ac yn addas iawn felly ar gyfer yr amser yma o'r flwyddyn. Gwahoddir felly aelodau o Eglwysi eraill yn y Ddinas i ymuno â'r gynulleidfa yn y Crwys i gofio yr Wythnos Fawr.

## Y TABERNACL

### Derbyn aelodau newydd

Yn ystod oedfa gymun Ionawr derbyniwyd tair o gyfeillion yr achos yn aelodau cyflawn. Mae Mai Giles yn enedigol o Hen Dy Gwyn ar Daf, ac yn athrawes yn Ysgol Melin Gruffydd. Un o ardal Penygroes, ger Rhydaman yw Elvira Griffiths ac y mae hithau hefyd yn athrawes yn yr un ysgol. Yn ddiddorol, ysgrifenyddes mewn ysgol yw'r drydedd, sef Anne Law, ond sydd â'i gwreiddiau yng Nghilgerran, yng Ngogledd Penfro. Yn dilyn yr oedfa, trefnwyd ein bod yn cael pryd bwyd 'Dewch a Rhannwch'.

### Priodas

Rhannwn lawenydd Owen John a Sian Wyn Thomas a'r teulu ar achlysur priodas eu merch Eirwen gyda Roberto Petiti, yn y New House, Bryn Drain. Gobaith Eirwen a Roberto yw symud yn ôl i Gaerdydd cyn hir, i sicrhau bod eu merch Mari yn derbyn addysg Gymraeg yn y brif-ddinas. Pob dymuniad da iddynt.
O barch i Steve Abbott a Cerys Matthews, ni roddwyd y cyhoeddusrwydd arferol i'w priodas yn y Tabernacl ddechrau mis Ionawr. Roeddent yn hynod ddiolchgar i swyddogion yr eglwys am ganiatau iddynt ddod i ganol Caerdydd, a phriodi yn y capel lle bu ewythr a mam Cerys yn aelodau. Mae gan Cerys atgofion melys lle y treuliodd hithau flynyddoedd dedwydd, cyn i'r teulu symud i Abertawe. Dymunwn i'r teulu hwn pob dedwyddwch. Derbyniwyd casgliad yn ystod y briodas, a'i rannu'n gyfartal rhwng Cronfa'r Organ ac Apêl Lesotho.

### Swydd Newydd

Yn ystod mis Ionawr daeth y newyddion bod Owain Williams wedi ymuno gyda chwmni McKinsey, sy'n gweithredu fel ymgynghorwyr rheoli, gyda'r brif swyddfa yn Llundain. Mae Owain yn bwriadu gorffen ei ddoethuriaeth ond yn derbyn hyfforddiant tra'n gweithio gyda'r cwmni rhyngwladol hwn . Dymunwn yn dda iddo wrth ddechrau ar ei yrfa.

### Cymdeithas y Chwiorydd.

Gwerthfawrogwyd cyflwyniad gan Mari Rogers o waith cwiltio cain ddiwedd Ionawr. Prynhawn yng nghwmni Ann Beynon wedyn ddechrau Chwefror yn sôn am ei gwaith gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb. Hanes Ganolfan y Mileniwm oedd gan Eirlys Jones a braf oedd cael cwmni Bet Davies o'r Ganolfan i'n tywys ni drwy'r pnawn. 'Pontio' oedd pwnc Owen John Thomas - a chyfle i ni'r chwiorydd i feddwl am ffyrdd i ddenu'r bobl ifanc yn ôl i'r capeli. Hugh Matthew . oedd yn cloi'r mis drwy drafod Enwau Capeli.

### Cymdeithas Nos Fawrth

Cynhaliwyd sawl noson dedwydd yn ystod mis Ionawr, ac yn arbennig y noson i ni gael ein difyrru gan Mererid Hopwood. Roedd nifer dda yn y festri yn mwynhau ei dehongliad a'i chyflwyniad o'i gwaith llenyddol. Bu noson 'Sion a Sian', yn hwyl o dan arweiniad Hugh Matthews ac hefyd y noson y 'Ddadl Falwn' gyda Wyn Morris yn arwain gyda Sian E. Thomas, Mari Rogers, Rhys ab Owen a Ioan Belling yn dadlau eu hachos. Mari Rogers ddaeth i'r brig gyda'r gynulleidfa yn cefnogi ei hapêl hithau dros Gwladys Aylward.

'Cwis a Chyri' oedd thema cyntaf fis Chwefror a bu cystadlu brwd rhwng y timoedd. Diolch i Hywel Jones a Huw Roberts am drefnu'r cwis ac i Mai Giles, Sian Wyn Thomas a Rhian Williams am baratoi'r cyri. Yr Archdderwydd, y Prifardd T. James Jones ddaeth i'n difyrru ar y 15ed o'r mis. Na, nid barddoniaeth y tro hwn ond hanesion am ei filltir sgwâr – noson wych.

### Bore Coffi

Diolch i Beryl Eurig am ei chroeso i ni ar ei haelwyd ym mis Ionawr; mwynhawyd yr orig hyfryd hon, gyda'r selogion o hyd yn falch o groesawu ffrindiau newydd. Ym mis Chwefror, aethon ni draw i aelwyd Jean Evans yn Nhongwynlais ar fore Chwefror 16 er mwyn parhau'r gymdeithas hon.

### Te i'r Di-Gartref

Rydym yn gorfod ffarwelio gyda Glyn a Margaret Rees o'r tîm eleni a charem ddiolch iddynt am eu cefnogaeth. Cynhelir cyfarfod blynyddol y pwyllgor ar fore Sadwrn, Chwefror 26ain. pan fyddwn yn gobeithio croesawu cynrychiolydd o blith y sawl sy'n gweithio ymhlith y di-gartref gyda Cyngor Dinas Caerdydd.

### Genedigaeth

Daeth newyddion dedwydd drwy law Dafydd Williams ei fod ef a'i briod yn dathlu fod eu hŵyr diweddaraf, sef Ianto Rhys Williams wedi ei eni'n iach ddiwedd mis Ionawr. Estynnwn i'w rieni Rhys a Meleri ein llongyfarchiadau cynhesaf.

## SALEM, TREGANNA

### Bedydd
Bedyddiwyd Anusha, merch Ruth a Salah yn ystod y mis. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

### Ympryd
Ddiwedd Ionawr fe wnaeth criw o bobl ifanc Salem ymprydio am ddiwrnod, er mwyn codi arian tuag at brosiectau dŵr Cymorth Cristnogol. Codwyd dros £1,100 tuag at yr elusen sy'n dipyn o gamp! Diolch o galon i bawb a gyfrannodd ac a fu'n cynorthwyo, a diolch yn arbennig wrth gwrs i'r bobl ifanc. Cafwyd cyflwyniad yn ystod y dydd gan Aled Pickard o Gymorth Cristnogol. Diolch i Aled am ei arweiniad.

### Sefydlu Adran yr Urdd Salem
Ers ddechrau Ionawr, mae Adran yr Urdd Salem wedi dechrau cwrdd yn wythnosol am y tro cyntaf, ar gyfer plant oed cynradd. Mae criw da o blant yn mynychu'n wythnosol erbyn hyn, ac mae rhaglen amrywiol o weithgareddau wedi eu trefnu bob wythnos, fel gemau, helfa drysor a gwers Sbaeneg. Yn ogystal â hynny, bydd criw yn cystadlu mewn dwy neu dair cystadleuaeth yn yr eisteddfod cylch/sir. Felly pob lwc Adran Salem! Bydd rhaid cael criw o gefnogwyr wrth gwrs…!

Cyfarfu'r Clwb Llyfrau, y Clwb Brecwast, Clwb y Bobl Ifanc a'r Grŵp Canu yn ystod y mis, a gwych yw gweld wynebau newydd. Croeso i chi ymuno â ni.

### Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn yn fawr â Siân Grace sydd wedi colli ei thad yn ddiweddar, â Sion Williams sydd wedi colli ei dad, ac â Ruth Parry sydd wedi colli ei mam. Cydymdeimlwn yn fawr â chi yn eich colled.

## MINNY STREET

### Celf ac Ati
Fel rhan o'i weinidogaeth, mae'r Gweinidog yn rhannu ei ddiddordeb ym maes celf drwy ddewis testun llun neu luniau i'w trafod mewn noson anffurfiol o'r enw Celf ac Ati. Gwaith yr arlunydd Tom Denny oedd testun ei astudiaeth yn ddiweddar. Gwydr yw cyfrwng Denny a chawsom gyflwyniad brwd i'w ffenestri lliw godidog. Prif sylw'r noson oedd rhyfeddod gwaith Denny yng Nghadeirlan Caerloyw. Nid oes i'r gwaith (1993) enw na theitl, ond mae'n seiliedig ar Salm 148 ac Efengyl Ioan 20: 24-29. Yn un ffenestr gwelir aer, dŵr, tân, gwynt a daear yn moliannu'r Arglwydd. Yn y ffenestr ar yr ochr arall, yng nghanol bwrlwm o liw, ceir rhaeadr, mam a phlentyn, mwd, heulwen, eira, rhew, perthi, coed, defaid, gwartheg, dynion yn marchogaeth a llew euraid. Cawsom ein herio i chwilio am yr holl elfennau hyn yng nghanol y bwrlwm. Cyfeiria symud egnïol y ddwy ffenestr ein llygaid at y ffenestr ganol, lle ceir dehongliad o Iesu'n ymddangos i Tomos. Mae'r arlunydd yn cyfleu'r foment honno pan gyffesa Tomos: "Fy Arglwydd a'm Duw!" (Ioan 20: 28). (Ceir astudiaeth ehangach o'r ffenestri rhyfeddol hyn ar dudalen ... ac Ati ar ein gwefan: www.minnystreet.org.)

### Amser Saboth
"Cofia'r dydd Saboth i'w gadw'n gysegredig …" Y Pedwerydd Gorchymyn. Pwysig? Allweddol! Nid canolbwyntio ar y Saboth fel dydd arbennig o'r wythnos wnaeth y Gweinidog. Amser Saboth fynnodd ei sylw, sef amser y dylem ei neilltuo i orffwys, ymdawelu ac ymlonyddu. Mae'n bwysig gwneud ymdrech i fachu a sicrhau Amser Saboth, boed yn ddiwrnod cyfan, yn gyfnod o ddiwrnod neu'n damaid o gyfnod o ddiwrnod. Pwrpas y cyfnod o orffwys? Ystyried ein perthynas â Duw, ac yng ngoleuni'r berthynas honno, ein perthynas â ni'n hunain ac ag eraill.

Aeth gwaith, chwarae ac addoli yn gymysg gawl! Addolwn ein gwaith, gweithiwn yn galed ar ein chwarae, a chwaraewn gyda'n haddoliad. Crëwyd Amser Saboth i gadw trefn ar y tri pheth. Mewn Amser Saboth diffoddwn y teledu, y radio, y cyfrifiadur, y fwyaren a'r ffôn symudol. Mynnwn Amser Saboth yn gyson. O wneud, gweithiwn yn well, cyflawnwn fwy, magwn deulu iachach a chynhaliwn anwyliaid yn gadarnach. Trwy gymryd Amser Saboth cydnabyddwn fod oedi gyda Duw yn ein gwneud yn well pobl. (Ceir fersiwn lawn o'r bregeth ar dudalen Crynodebau Pregethau ar ein gwefan, www.minnystreet.org.

### Koinonia Prynhawn
κοινωνία – Koinonia. Defnyddir y gair 19 o weithiau yn y Testament Newydd Groegaidd. Yn syml, gall Koinonia olygu cymuned, cymundeb, cydgyfranogi, rhannu neu agosrwydd. Ynghyd â chael mwynhau cinio wedi ei baratoi ar eu cyfer, wrth gyfarfod ganol dydd unwaith y mis mae criw Koinonia Prynhawn yn cael cyfle i ddod at ei gilydd am sgwrs, pryd o fwyd a chyfle i gymdeithasu y tu allan i furiau'r capel. Yn yr Innkeeper's Lodge, Heol Ty'n y Parc, Yr Eglwys Newydd y cyfarfyddwn, yn ddynion a gwragedd o bob oed, rhai wedi ymddeol ac eraill yn rhydd o'r gwaith yn ystod yr awr ginio. "Carvery" rhesymol iawn ei bris sydd yno i'n temtio; y mis hwn eisteddodd 15 ohonom i lawr i fwyta ac ymgomio. Braf bob tro yw cael treulio orig yng nghwmni cyd-aelodau i rannu newyddion - yn ddigwyddiadau a gofidiau neu gonsyrn, yn drafodaeth ddwys a storïau trwstan, yn lleddf a llon.

### Cyngerdd yr Elusen
Cynhelir cyngerdd er budd ein helusen, Yr Ystafell Fyw, yng nghwmni Cantorion Ardwyn (arweinydd David Leggett) wedi'r oedfa hwyrol nos Sul, 15 Mai.

## EBENESER

### Siom ond Dyfal Donc
Siom mawr i ni fel eglwys oedd clywed na chwblhawyd y cynllun i werthu adeilad Ebeneser ar ddiwedd mis Ionawr. Yr oeddem o fewn trwch adain gwybedyn ond fe dynnodd y pen-cogydd Raymond Blanc allan ar yr eiliad olaf gan ddryllio bwriadau'r prynwyr. Yr hyn a wnaed a wnaed, a'r hyn a fu a fu. Rhaid i ni yn awr fel Eglwys Iesu Grist ysgwyd y llwch oddi ar ein traed gan fod yn gwbl ffyddiog fod Duw wrth y llyw a'i fod yn cyflawni ei waith. Dyfal donc a dyrr y garreg medd yr hen ddihareb ac meddai'r Salmydd, 'Disgwyl wrth yr Arglwydd, bydd gryf a gwrol dy galon a disgwyl wrth yr Arglwydd' (Salm 27:14).

### Gwenfyl Edwards
Tristwch mawr i ni fel eglwys oedd clywed am farwolaeth annhymig yr annwyl Gwenfyl Edwards yn 53 oed. Daeth Gwenfyl i Goleg y Brifysgol yma yng Nghaerdydd gan ennill gradd yn y clasuron. Arhosodd wedyn yn y brifddinas gan weithio i'r Bwrdd Croeso. Diolchwn i Dduw amdani a chydymdeimlwn gyda'i rhieni Elwyn a Ceri Edwards, Porthaethwy, yn eu profedigaeth a'u hiraeth mawr.

### Dymuniadau Gorau
Llongyfarchiadau i Rhys Owen Davies, sydd wedi pasio ei arholiadau meddygol terfynol. Bydd yn treulio 2 fis yn gweithio yn Affrica dros yr haf, cyn dechrau ar ei swydd gyntaf ym Manceinion fel meddyg. Mae Rhys yn fab i Huw a Lorraine Davies, ac ŵyr i Terwyn a Marian Davies. Dymunwn yn dda iddo yn ei yrfa feddygol.

Pob dymuniad da i Lyn Jones yn ei swydd newydd gyda Braces.

Bydd Philippe a Juliet Moseley a'r teulu yn symud i Frwsel ym mis Mawrth, gan bod Juliet wedi cael secondiad yno am 2 flynedd. Pob dymuniad da iddynt fel teulu.

Yn ddiweddar fe ddathlodd Catrin Wooler, Gwenda Spriggs a Mair Bennett benblwyddi go arbennig. Dymunwn benblwydd hapus iddynt i gyd.

Newid Cartref - Y mae Mair Evans, Penylan, wedi symud i fyw i Gartref Gofal Lindisfarne, 79 Heol y Gadeirlan. Dymuniadau gorau iddi gan holl aelodau Ebeneser wrth iddi ymgartrefu yno.

**Brethyn Cartre'**
Daeth nifer ohonom ynghyd yn y festri ar nos Fawrth, Chwefror 8fed i glywed hanes dwy o wragedd Ebeneser, sef Bethan Hayes a Siân Morgan. Bu Bethan yn sôn am ei magwraeth yn Rhydymain, Llanuwchllyn a Dolgellau. Soniodd am enwogion yr ardal megis Tom Gwanas, ei ferch Bethan Gwanas, a'r awdures Marion Eames. Roedd yn sicr fod dylanwad bro ei mebyd wedi gadael ei farc arni.

Mynd i gyfeiriad gwahanol wnaeth Siân a sôn am ei gyrfa yn Adran Geneteg Ysbyty'r Brifysgol yma yng Nghaerdydd. Merch sy'n dod o ardal Castell Newydd Emlyn a Llandysul yw Siân ac roedd hi wedi mynychu ysgolion bychain yr ardal, cyn mynd i'r Brifysgol a chodi i'r brig mewn maes cymhleth gwyddonol a holl bwysig. Eglurodd i ni mewn ffordd ddiymhongar a dealladwy ei gwaith bob dydd - o'r cromosomau i bwysigrwydd y ffactor 'X'. Noson arbennig o dda unwaith eto a diolch yn fawr i'r ddwy am eu cyfraniadau. Mynegwyd ein diolch iddynt gan Gethin Lewis.

## EGLWYS DEWI SANT

**Ficer Newydd**
Ers mis Hydref mae'r eglwys wedi bod heb ficer felly llawenydd o'r mwyaf oedd clywed fod ficer newydd wedi ei benodi o fis Mai. Edrychwn ymlaen at groesawu'r Parch Dyfrig Lloyd o Esgobaeth Tyddewi i Ddewi Sant ac i'w gartref newydd yn 6 Rachel Close Danescourt Llandaf. Roedd hyn yn hwb mawr i bawb sy'n gweithio mor galed i gynnal yr eglwys yn yr interregnum.

**Recordio**
Cafwyd noson bleserus ar y 1af Chwefror pan recordiwyd dwy raglen o Dechrau Canu Dechrau Canmol yn yr eglwys: y cyntaf ar gyfer Gwyl Dewi ac edrychwn ymlaen at yr ail ar y Sulgwyn sef y 29ain o Fai.

**Cydymdeimlo**
Estynnir cydymdeimlad diffuant a : Huw, Anna a Tomos Brodie ar farwolaeth John Brodie, tad Huw, Nerys, Ifer ,Mared a Rhydian Arch ar farwolaeth Vera Lloyd, mam Nerys.

## CRISTNOGAETH 21

I unrhyw un sy'n darllen y wasg grefyddol yng Nghymru neu sy'n gyfarwydd â'r datblygiadau mwyaf cyffrous ym myd gwefannau, bydd enw Cristnogaeth 21 yn un digon cyfarwydd. Cafodd ei sefydlu dair blynedd yn ôl gan griw bach o weinidogion a lleygwyr oedd yn teimlo bod y Gymru Gymraeg wedi dioddef yn ystod y blynyddoedd diweddar o ddiffyg trafodaeth eang ar natur Cristnogaeth yn ein dyddiau ni. Penderfynwyd ffurfio fforwm er mwyn cymell a hyrwyddo trafodaeth agored ar y ffydd Gristnogol mewn ymgais i ddehongli Cristnogaeth gyfoes, radical ar gyfer yr oes bresennol.

Hyd yma, bu'r gweithgarwch mwyaf ar y We, neu mewn erthyglau i'r wasg a thrafodaethau ar y cyfryngau. Y llynedd, cynhaliwyd cynhadledd undydd lwyddiannus iawn yn Aberystwyth gyda'r Athro Keith Ward yn brif siaradwr.

Ond nawr, mae Cristnogaeth 21 yn dod i'r ardal hon. Cynhelir dau ddigwyddiad o bwys yng Nghaerdydd dros y misoedd nesaf. Yn gyntaf, bydd cyfarfod i sefydlu grŵp lleol yn y cylch hwn nos Fawrth 18fed am 7.30 p.m. yng nghapel Salem, Treganna, gyda'r Parchedig R.Alun Evans yn cadeirio. Cawn glywed gan rai o sylfaenwyr Cristnogaeth 21, ac yna bydd trafodaeth agored.

Yna, cynhelir y gynhadledd undydd flynyddol ar Fai'r 21ain, eto yng nghapel Salem, Treganna, i ddechrau am 10.00 a.m. Y gŵr gwadd eleni fydd yr Athro Dave Tomlinson, awdur Cristnogol blaengar a phoblogaidd iawn, ac mae hwn yn gyfle prin i'w glywed yn ein hardal ni. Ef yw sylfaenydd y cymunedau ffydd sy'n cyfarfod mewn tafarndai neu unrhyw le arall, ac yn cael yr enw 'Holy Joes'. Cewch ragor o fanylion am Gristnogaeth 21 a'r gynhadledd ar www.cristnogaeth21

## Cydymdeimlo â...

* theulu y diweddar Mair Morgan a fu farw'n dawel yn Nhŷ Nasareth ar Ffordd y Gogledd Caerdydd ar yr 16eg o Ionawr yn 90 oed. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen Llanisien ar yr 31 Ionawr.

* theulu y diweddar Alice Parry gynt o'r Felinheli a fu farw'n dawel yn Ysbyty Dewi Sant Caerdydd ym mis Ionawr. Bu'r angladd yn Eglwys Llanfairisgaer ar yr 31ain Ionawr ac wedi hynny ym mynwent yr Eglwys.

* theulu y diweddar Mair Gras Saunders Jones ym Mwlch y groes, Llandysul a fu farw'n dawel ar y 1af o Chwefror yn 84 mlwydd oed. Bu'r angladd yn Eglwys Gatholig Sant Joseff, Penarth ar y 14eg o Chwefror.

## O'r Wefan

Nodyn bach i ddweud fod y Fedwen Lyfrau, Gŵyl Lyfrau Cymraeg blynyddol Cymru, yn gwreiddio yng Nghaerdydd eleni.

Bydd canolfan gelfyddydau The Gate yn fwrlwm o weithgareddau yn ymwneud â llyfrau Cymraeg ar ddydd Sadwrn 7 Mai, pan fydd rhyw 20 o lyfrau Cymraeg newydd yn cael eu lansio, a rhywbeth at ddant pawb, yn sesiynau, paneli holi, trafodaethau, gweithgareddau a gweithdai i blant, ynghyd â chyfle i brynu, rhwng 10 y bore a 4 y prynhawn a'r cyfan am ddim!

Hefyd, ar nos Wener 6 Mai, yng Nghlwb y Diwc, Treganna, bydd Gwasg Gomer, fel rhan o'r Fedwen, yn lansio'r gyfrol hir ddisgwyliedig Twrw Jarman, gydag adloniant a chyfle i brynu'r gyfrol newydd. Pris mynediad £5.


Am ragor o fanylion cysylltwch â'r trefnydd Bethan Mair, geiriau@gmail.com / 07779 102224 neu gadwch lygad ar dudalen Bedwen Lyfrau ar Facebook.

Mae Cwlwm Cyhoeddwyr Cymru yn edrych ymlaen at groesawu darllenwyr brwd y ddinas, a'r Dinesydd, i unig Ŵyl Lyfrau Cymraeg Cymru. Dewch yn llu.

## Dychwelyd

Croeso'n ôl Aaron!

Mae'r seren bêl-droed ifanc 20 oed Aaron Ramsey o Gaerffili wedi dychwelyd ar fenthyg i chwarae i'w hen glwb Dinas Caerdydd o Arsenal. Gadawodd Aaron Glwb Dinas Caerdydd am Arsenal yn 2008 ond blwyddyn yn ôl torrodd ei goes a bu allan o'r gêm am fisoedd lawer ond nawr mae e wedi dychwelyd i chwarae.



Cymro Cymraeg ydy Aaron a bu'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Gymraeg Cwm Rhymni.

# Rysáit y Mis



Cyw iâr gyda pesto coriander
Gan Nerys Howell o Ymgynghoriaeth Bwyd Howel

Dyma rysáit syml, blasus a gwahanol. Defnyddir cyfuniad o bersli a choriander ffres i baratoi'r pesto yn lle'r basil arferol. Gellir paratoi'r pesto o flaen llaw a'i gadw yn yr oergell am i fyny at wythnos.

**Cynhwysion**

25g coriander ffres
15g persli ffres
croen a sudd 1 oren
25g cnau pistasio
25g caws Cheddar aeddfed neu gaws caled cryf
2 clof garlleg
4 llond llwy fwrdd olew olewydd
4 brest cyw iâr (mawr), heb groen
4 sleisen o Ham Caerfyrddin neu Bresaola
6 llond llwy fwrdd stoc cyw iâr

**Dull**

Rhowch y perlysiau ffres, croen oren, cnau, caws a garlleg mewn prosesydd bwyd a chymysgwch i wneud pâst esmwyth gyda'r olew olewydd. Ychwanegwch sudd oren os oes angen i wneud pâst llyfn. Sychwch y cyw iâr gyda phapur cegin tamp. Gan ddefnyddio cyllell finiog, torrwch ar draws pob brest i wneud poced. Llenwch y pocedi gyda hanner y pesto perlysiau. Lapiwch yr ham neu bresaola o amgylch y cyw iâr a gofalu ei fod yn ei le gyda phric coctel. Cynheswch yr olew mewn padell ffrio fawr dros wres canolig a choginiwch y brestiau cyw iâr am 20 munud gan eu troi bob 5 munud nes eu bod yn frown ysgafn ar y ddwy ochr a'r bresaola wedi ei grasu fymryn. Tynnwch o'r badell ffrio a'u cadw'n gynnes tra'n gwneud y saws. Ychwanegwch weddill y pesto i'r sosban gyda'r sudd oren a'r stoc, gan ei gynhesu'n araf. Gweinwch gyda'r cyw iâr a thynnu'r priciau coctel cyn bwyta.

Mae Ymgynhoriaeth Bwyd Howel yn gwmni sy'n helpu marchnata bwyd a diod o Gymru gan ddatblygu ryseitiau, bwydlenni, ffotograffiaeth bwyd a hyfforddi. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.howelfood.com

## Merched y Wawr Radur



**Sulwyn Thomas ac Elsbeth Edwards yn dathlu Gwyl Santes Dwynwen gyda Merched y Wawr Radur**

Yn ôl ein harfer, gwahoddwyd y dynion i ddathlu Gŵyl Santes Dwynwen yng Nghlwb Golff Radur. Croesawyd pawb gan ein Llywydd, Elsbeth Edwards ac yn arbennig Sulwyn a Glenys Thomas. Cyflwynwyd Sulwyn gan John Evans a roddodd hanesion am gyfnod o gydweithio gyda'r gŵr gwadd ar Radio Cymru. Cafwyd hanesion difyr gan Sulwyn am helyntion ei Stondin dyddiol. Diolchwyd iddo gan cyn-gydweithiwr arall, Wyndham Richards a soniodd am gyfnod cynnar Sulwyn fel newyddiadurwr yng Nghaerfyrddin. Eleni eto darparwyd swper blasus gan swyddogion y Clwb Golff.

## Merched y Wawr Caerdydd

'The Ancient National Airs of Gwent' a gyhoeddwyd ym 1844 wedi ei symbylu gan Wenynen Gwent, ei ariannu gan Mrs. Greenway a'i gasglu gan Maria Jane Williams, oedd testun sgwrs Mr Alan James ym Merched y Wawr ar yr 8fed o Chwefror.

Pwysleisiai Mr James bwysigrwydd y geiriau Cymraeg ar y 43 o alawon, gan fod geiriau alaw werin cyn bwysiced â'r alaw ei hun. Cynnwys y llyfr dribannau poblogaidd fel yr hen ganu ychen, canu wassail a baledi fel 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn.'

Kathleen Wood

## Diolchiadau

Dymuna Sarah, Sybil a James Barr ddiolch i bawb am eu cyfraniadau hael er cof am y diweddar Ben Barr. Trosglwyddwyd £2500 i Ysbyty Felindre.

# Newyddion



## Swydd Newydd i'r DJ Huw Stephens

Ar ôl bod yn cyflwyno rhaglenni bob nos Fercher ar BBC Radio 1, mae Huw bellach yn cyflwyno rhaglenni'r Sianel bob prynhawn dros y penwythnosau. Daw Huw Stephens o'r Eglwys Newydd ac mae gynddisgybl o Ysgol Gyfun Glantaf. Ef a John Rostron yr hybwr cerddoriaeth a sefydlodd Gŵyl Gerddorol Sŵn a gynhelir yng Nghaerdydd bob blwyddyn bellach.

## Arddangosfa gan Efeilliaid

Yn ystod Mis Chwefror cynhaliwyd Arddangosfa Artistig yng Nghanolfan y Mileniwm o waith yr efeilliaid Nichola a Sian Hope, cyn ddisgyblion o Ysgol Glantaf. Dros y blynyddoedd diwethaf cawsant rwydd hynt gan y Cwmni Opera Cenedlaethol i ymweld ag ymarferion a pherfformiadau'r Cwmni i greu eu darluniau operatig. Dyma'r tro cyntaf iddyn nhw arddangos y darluniau hyn yn y brifddinas.

## Siom i Gapel Ebeneser

Cafodd y cynlluniau i droi capel Ebeneser yn Heol Siarl yn fwyty Raymond Blanc eu diddymu oherwydd y sefyllfa economaidd gwan ac felly bydd angen i'r capel geisio eto i werthu'r adeilad er mwyn symud i ran arall o'r ddinas.

## Dadorchuddio Darluniau

Mewn seremoni arbennig yn y Cynulliad ym Mae Caerdydd ar yr 26 Ionawr dadorchuddiwyd dau ddarlun gan yr arlunydd David Griffiths gynt o Bwllheli o Rhodri Morgan cyn Brifweinidog Cymru. Bydd un o'r darluniau yn aros yn adeilad y Cynulliad tra bydd y llall i'w gweld yn y Llyfrgell Genedlaethol.

## Noson Gerddorol yn Rhiwbeina

Yng nghyfarfod misol Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina ar y 14eg o Chwefror cafwyd noson gerddorol yng nghwmni chwech o ddisgyblion chweched dosbarth Ysgol Glantaf a chafwyd noson i'w chofio a'r neuadd yn orlawn i wrando ar gyfraniadau y bobl ifanc ddawnus hyn.

## Barwnes

Ar ôl bod yn Aelod Ewropeaidd am bymtheng mlynedd mae Eluned Morgan bellach yn Farwnes Morgan o Drelai. Ar y 26 Ionawr cymerodd ei sedd yn Nhŷ'r Arglwyddi am y tro cyntaf. Fe'i cyflwynwyd yn y Tŷ gan Glenys Kinnock a Jan Royall. Mae Eluned yn briod â'r meddyg teulu Rhys Jenkins ac mae dau o blant ganddyn nhw. Bu ei thad yn ficer yn ardal Trelai ac yn Gadeirydd yr hen Sir De Morgannwg.

## Noddwraig Newydd i Gystadleuaeth Canwr y Byd

Bu'r gantores y Fonesig Joan Sutherland yn Noddwraig y Gystadleuaeth hon am flynyddoedd hyd ei marwolaeth. Bellach ei holynydd ydy'r gantores enwog y Fonesig Kiri Te Kanawa. Cynhelir y gystadleuaeth eleni rhwng y 12 – 19 Mehefin yn Neuadd Gyngerdd Dewi Sant.

# Calendr Y Dinesydd

**Sadwrn, 5 Mawrth**
Cymdeithas Carnhuanawc: Ysgol Fore yn Chapter, yn dechrau am 9.45am. Siaradwyr: Dr Simon Brooks, Dr Gethin Matthews a Dr Dylan Foster Evans. Am fanylion pellach, cysylltwch â Catherine Jobbins (029-2062-3275) neu Nans Couch (029-1075-3625).

**Llun, 7 Mawrth**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty Churchills am 7.30 pm. Siaradwr gwadd: Dewi Wyn Williams. Manylion pellach: Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mawrth, 8 Mawrth**
Darlith Goffa Islwyn (dan nawdd Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd). Darlith gan yr Athro D. Densil Morgan: 'Llenor Nyth y Dryw: Edward Matthews, Ewenni (1813–92).' Yn Ystafell 0.36, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 8 Mawrth**
Merched y Wawr Caerdydd. Pryd o fwyd i ddathlu Gŵyl Ddewi, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

**Mawrth, 8 Mawrth**
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd. Noson yng nghwmni Dr John Davies (Bwlchllan), am 7.30pm.

**Mercher, 9 Mawrth**
Merched y Wawr Bro Radur. 'Rhwng y Llinellau.' Sgwrs gan yr Archdderwydd, T. James Jones, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm. Fe'i noddir gan yr Academi.

**Mercher, 9 Mawrth**
Protest Fudur yn cyflwyno chwe drama fer yng Nghanolfan Mileniwm Cymru am 8.00pm. Manylion pellach: 029-2063-6464; www.wmc.org.uk.

**Iau, 10 Mawrth**
Cymdeithas Cymru-Ariannin, Cangen y De: Sgwrs gan Mari Emlyn am ei chyfrolau o lythyrau'r Wladfa, yn Ystafell Edwin, Capel Salem, Treganna, am 7.30pm.

**Iau, 10 Mawrth**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. 'Myfyrdod y Grawys (1): Y Tad', dan arweiniad y Parch. Lona Roberts. Yng nghapel y Crwys, am 7.30pm.

**Gwener, 11 Mawrth**
'Wy ar Lwy'. Sioe i blant rhwng un a phedair blwydd oed gan Gwmni Theatr Lyngo, yng Nghanolfan Mileniwm Cymru am 10.30am ac 1.30pm. Manylion pellach: 029-2063-6464; www.wmc.org.uk.

**Gwener, 11 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd. 'Y Sipsiwn Cymraeg eu Hiaith.' Sgwrs gan Dr Simon Brooks, yn festri Capel Minny Street am 7.30pm. Cydnabyddir nawdd yr Academi.

**Sadwrn, 12 Mawrth**
Organothon. Ar ddiwrnod gêm rygbi Cymru v. Iwerddon, bydd tîm organyddion Eglwys y Tabernacl, Yr Ais, yn chwarae drwy'r dydd ar organ adnewyddedig y Tabernacl i godi arian at gronfa'r organ. Galwch i mewn, mwynhewch y gerddoriaeth, a chyfrannwch rywbeth i'r bwced casglu!

**Llun, 14 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Swper Gŵyl Ddewi ac adloniant, yng nghapel Bethany am 7.00pm.

**Llun, 14 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen y Bont-faen. Allan am bryd o fwyd.

**Mawrth–Mercher, 15–16 Mawrth**
Cwmni Theatr Cymru yn cyflwyno fersiwn Gymraeg Dafydd James o'r sioe gerdd 'Deffro'r Gwanwyn' yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Manylion pellach: 029-2063-6464; www.wmc.org.uk.

**Mercher, 16 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Cwis dan ofal Mair ac Idwal Hughes, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Gwener, 18 Mawrth**
Cyfarfod i sefydlu grŵp lleol o Gristnogaeth 21 yn ardal Caerdydd, yng nghapel Salem, Treganna, am 7.30 pm. Cadeirydd: Parch. Ddr R. Alun Evans. Croeso i bawb.

**Sadwrn, 19 Mawrth**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Lis Williams ar y testun 'Llythyrau Ann Griffiths' am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.

**Sadwrn, 19 Mawrth**
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd. Taith gerdded dan arweiniad Illtyd Lloyd a Wyn Morris, am 10.00am.

**Llun, 21 Mawrth**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth, 22 Mawrth**
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd. Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas, am 7.30pm.

**Mawrth, 22 Mawrth**
Clwb Llyfrau'r Academi yn trafod Cymru: Y 100 Lle i'w Gweld Cyn Marw (John Davies/Marian Delyth), yng Nghanolfan Glyn Jones yr Academi, Canolfan Mileniwm Cymru, am 7.00pm.

**Iau, 24 Mawrth**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. 'Myfyrdod y Grawys (2): Y Mab', dan arweiniad Carys Whelan. Yng nghapel Bethel, Rhiwbina, am 7.30pm.

**Gwener, 25 Mawrth**
Cynhelir cyfarfod o Gymdeithas Hanes Plaid Cymru yng Nghanolfan y Mileniwm am 4.30pm. Siaradwr gwadd: D. Hywel Davies (awdur The Welsh Nationalist Party 1925-1945: A Call to Nationhood).

**Gwener, 25 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan y Prifardd John Gwilym Jones ar y testun 'Doniau Dic', yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd yr Academi.

**Mercher, 30 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Gwener, 1 Ebrill**
Cylch Cadwgan. Yr Athro M. Wynn Thomas yn siarad ar y testun 'Barddoniaeth Grefyddol R. S. Thomas' yn y Ganolfan, Tabernacl, Yr Efail Isaf am 8.00pm. Cydnabyddir cefnogaeth yr Academi Gymreig

**Llun, 4 Ebrill**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty Churchills am 7.30 pm. Siaradwraig wadd: Bethan Darwin. Manylion pellach: Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mercher, 6 Ebrill**
Merched y Wawr Bro Radur. Sgwrs gan Hannah Wynn Jones, Canolfan y Mileniwm, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

**Iau, 7 Ebrill**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. 'Myfyrdod y Grawys (3): Yr Ysbryd Glân', dan arweiniad yr Athro Tomos Watkin. Yng nghapel Ebeneser, am 7.30pm.

**Llun, 11 Ebrill**
Merched y Wawr, Cangen y Bont-faen. Noson yng nghwmni Rebecca Spiller o'r Cynulliad, yn Neuadd y Groes-goch, Y Bont-faen, am 7.30pm.

**Mawrth, 12 Ebrill**
Darlith Goffa G. J. Williams (dan nawdd Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd). Darlith gan yr Athro Dafydd Johnston: 'Bardd yr Haf yng Nghysgod y Chwyldro: Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym 1789 a Jean-Jacques Rousseau'. Yn Ystafell 0.36, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 12 Ebrill**
Merched y Wawr Caerdydd. Sgwrs gan Rhodri Morgan, cyn-Brif Weinidog Cymru, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

**Mawrth, 12 Ebrill**
Cyngerdd Côr y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd, dan arweiniad Euros Rhys Evans.

**Mercher, 13 Ebrill**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Prynhawn cerddorol yng nghwmni Mair Robins, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

Iau, 14 Ebrill
Cymdeithas Cymru-Ariannin, Cangen y De: 'Y Drafod yn 120 Oed.' Sgwrs gan Walter Ariel Brooks, a Chyfarfod Blynyddol y Gangen i ddilyn, yn Ystafell Edwin, Capel Salem, Treganna, am 7.30pm.

Sadwrn, 16 Ebrill
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Dr Lynda Newcombe ar y testun 'Trosglwyddo'r Iaith i'r Gymuned' am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.

Llun, 18 Ebrill
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson yng nghwmni Beti Davies, yng nghapel Bethany am 7.30pm.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at:
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
Ffôn: 029-2062-8754;
ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk

# Llwyddiant!



Tybed a fydd un neu fwy o'r rhain mor enwog â Gareth Bale neu Aaron Ramsey rhyw ddydd?

Mae clwb pêldroed yr Urdd (dan 11) yn cael llwyddiant arbennig y tymor yma unwaith eto. Hyd at ganol Chwefror roeddent heb golli mewn 26 o gemâu! Yn anffodus bu iddynt golli y 27ain. Mae'r cit newydd a noddwyd gan raglen 'Wedi 7' (S4C) yn amlwg yn ysbrydoliaeth!

Gallwch ddilyn hanes y bechgyn am weddill y tymor ar:

www.clubwebsite.co.uk/urdd/89126

# Cystadleuaeth Fideo

Os ydych chi'n teimlo'n angerddol am Gymru, beth am i chi rannu eich profiadau ag eraill?

Mae cwmni ar-lein Y Gorau o Gymru, www.ygorauogymru.co.uk sy'n gosod bythynnod gwyliau moethus ar hyd a lled y wlad, yn gosod her i bobl greu fideo byr yn arddangos nodweddion gorau Cymru - ac yn cynnig gwobr £1,000 i'r un gorau.

Mae'r gystadleuaeth yn agored i unrhyw un, yn cynnwys teuluoedd, myfyrwyr a grwpiau – yr unig beth sydd ei angen arnoch ydy camera fideo ac ysbrydoliaeth. Bydd y ceisiadau yn cael eu beirniadu gan banel o arbenigwyr yn cynnwys yr actor adnabyddus Mathew Rhys; y cyn-gyflwynydd/gynhyrchydd Elin Rhys, bellach yn gyfarwyddwraig rheoli ar Telesgop a Jonathan Jones, Cyfarwyddwr Twristiaeth a Marchnata Croeso Cymru.

Yn ogystal ag edrych am y fideo mwyaf difyr, creadigol a gwreiddiol, bydd y panel hefyd yn asesu ei photensial i fynd yn feirol – h.y. a fydd pobl yn debygol o fod eisiau ei gyrru ymlaen i'w ffrindiau neu ei phostio ar 'flogs' neu rwydweithiau cymdeithasol. Ni ddylai ffilmiau fod yn hirach na thair munud o hyd a dylai hefyd gyfeirio at y ddolen www.ygorauogymru.co.uk.

Meddai Llion Pughe, un o gyfarwyddwyr Y Gorau o Gymru: "Rydyn ni i gyd yn edrych ymlaen at dderbyn y ceisiadau a dod i hyd i enillydd haeddiannol ar gyfer y wobr £1,000.

Bydd y fideo buddugol yn cael ei arddangos ar wefan Y Gorau o Gymru a'i ddefnyddio i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan wyliau o'r ansawdd uchaf."

Am fwy o fanylion ac i gael gweld telerau ac amodau llawn y gystadleuaeth ymwelwch â www.bestofwales.co.uk/video-competition

*Llion Pughe*
*Cyfarwyddwr*
*Y Gorau o Gymru*
*01650 511 101*
*www.bestofwales.co.uk*

# Siop ddillad moethus yn helpu digartref Caerdydd

Cyfuniad rhyfedd iawn o eiriau yw "Canolfan y Wallich" a "Body Basics", y naill a'r llall yn cynrychioli dau begwn bywyd cymdeithasol yn y Brifddinas, ond un bore ym mis Tachwedd y llynedd daeth y ddau ynghyd. Ar dop Heol y Gadeirlan mae Canolfan y Wallich, a phan fyddwch yn yr ardal mae'n werth troi i mewn i weld y math o waith mae nhw'n gwneud gyda'r digartref.

Gyferbyn mae Stryd Pontcanna ac yno mae siop ddillad Body Basics. Lisa Karamouzis yw'r perchen ac un bore oer mis Tachwedd diwethaf roedd hi'n cerdded drwy'r dref yn teimlo'n ddigon diflas pan welodd nifer o'r digartref. Fe'i trawyd mor freintiedig oedd hi a phenderfynodd fynd ati i godi rhywfaint o arian iddynt cyn y Nadolig.

Fel perchen siop ddillad roedd yr ateb yn amlwg. Cynnal sioe ddillad! Aeth ati i wahodd nifer fawr o ffrindiau a'i chwsmeriaid ffyddlon i dipyn o barti yn y siop! Cododd dros £5,000 mewn un prynhawn! Mae'n swm anhygoel! Y gyfrinach, wrth gwrs, oedd iddi gysylltu gyda chylchoedd busnes Caerdydd, a buont yn rhyfeddol o hael.

Mae yna elfen arall i'r stori hon. Cysylltodd Lisa â'r Wallich oherwydd bod eu canolfan mor agos at ei siop, ond yr hyn a'i hysbrydolodd hi oedd cyfarfod â Derith Rhisiart, merch Mel Williams (Llanuwchlyn a'r 'Casglwr'), eu Swyddog Codi Arian. Mae brwdfrydedd Derith yn heintus a synnodd Lisa glywed am y gwaith mae'r Wallich yn ei wneud.

Fe'i sefydlwyd ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, ond yn anffodus mae mwy o angen eu help nawr nag erioed. Mae ganddynt dai a chanolfannau ar draws Cymru ac yn arbennig yng Nghaerdydd ac Abertawe, a hostel yn Wrecsam. Yn aml gallant arbed pobol rhag colli eu cartref ond mae llawer ar drugaredd amgylchiadau a heb deuluoedd i'w cynnal. Rhan bwysig o'u gwaith yw helpu'r rhai sy'n gaeth i alcohol a chyffuriau a bywyd yn drech na nhw.

Os oes gan unrhyw un diddordeb yn y gwaith, mae Derith yn croesawi'r cyfle i ymweld â grwpiau ac mae ganddynt wefan dda:

www.thewallich.com

*Rhiannon Gregory*